

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol - Cynnydd ar Weithredoedd (2012 - 2015)

Gweithredu	Cyfrifoldeb	Croes Gyfeirio	Nodwedd warchoddedig										Cwblhau erbyn	Cynnydd Coch-heb ei wneud Ambr-yn mynd rhagddo Gwyrdd-cwblhawyd / parhaus	Gweithredu a wnaed	
			Hill	Anabledd	Rhyw	Ailbennu	Rhywedd	Tueddfryd	Rhywiol	Oedran	Crefydd/Cred	Prifodas/ Partneriaeth Sifil				Beichlogrwydd/ Cyfnod
<b>Amcan 1: Lleihau anghydraddoldebau lechyd</b>																
1.1.1	Datblygu rhaglenni gweithgarwch corfforol a bwytan iach trwy gynyddu presenoldeb yn y Ganolfan Iechyd yn dilyn Atgyfeiriad Meddyg Teulu ac yn ein Canolfannau Hamdden. Byddwn yn casglu ac yn dadansoddi data monitro cydraddoldeb ac yn targedu'r grwpiau gwarchoddedig hynny lle gwelir mwy o anghydraddoldebau.	Gwasanaeth Datblygu Cymunedol: Ffyrdd o Fyw Egniol a Chreadigol BIPBC	Un Conwy 4.2.5	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	2014		Gweithredu "Rhaglen Rheoli Ffordd o Fyw" fel rhan o'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC). Gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac eraill i wneud cais am grant 5 mlynedd gan y Loteri Fawr i fynd i'r afael â'r materion hyn. Cyllid Teuluoedd yn Gyntaf ar gyfer y tîm "Ffordd o Fyw" wedi dirwyn i ben, rydym yn ymchwilio i ddewisiadau eraill. Mae'n bosibl hefyd erbyn hyn i atgyfeirio staff sy'n sâl neu sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi â'r gwaith, at y Cynllun i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff.
1.1.2	Annog bwytan iach, h.y. trwy Fenter Ysgolion Iach ym mhob ysgol ac Uned Atgyfeirio Disgyblion ac ymestyn hyn i'n darpariaeth cyn-ysgol.	Addysg Iechyd Cyhoeddus Cymru	Un Conwy 4.2.3	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	2014		Daeth cyllid Blas am Oes i ben fis Awst 2013, sydd wedi arwain at roi'r cynnig i ysgolion ariannu'r rhaglen Blas am Oes eu hunain. Mae Gwyliau Bwyd Ysgol Conwy a Llanrwst wedi darparu cyfleoedd i ddangos y cynnydd a wnaed, gyda 49 o ysgolion cynradd a 7 ysgol uwchradd yn cyflwyno ac yn cymryd rhan. Ym mis Ionawr 2014 darparwyd hyfforddiant ar gyfer athrawon, cymorthyddion addysgu a chogyddion i arfogi cyfranogwyr gyda hyder a sgiliau i gyflawni'r rhaglen Blas am Oes yn eu hysgolion eu hunain. Mae Blas am Oes yn parhau yn yr ysgolion sydd wedi prynu i mewn i'r rhaglen. Cynhaliwyd 6 diwrnod o wyliau bwyd ar gyfer ysgolion cynradd a babanod, gyda 44 o ysgolion yn cymryd rhan. Hefyd, cynhaliwyd 2 ddiwrnod o Gynadleddau Masnach Deg lle bu i 28 o ysgolion gymryd rhan mewn gweithdai coginio Masnach Deg Iach.
1.1.3	Annog "heneiddio actif" drwy gefnogi pobl hŷn i gynnal ffordd iach o fyw.	Swyddog Datblygu Strategaeth Pobl Hŷn	Un Conwy 4.3.3	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	2014		Mae'r cynllun Byw'n Egniol a Phositif yn mynd rhagddo a bellach yn cael ei ddarparu drwy gydol dydd Mawrth ac mae parodwydd i gyflwyno rhywbeth tebyg mewn canolfannau eraill. Bydd Grŵp Canlyniad Blaenoriaeth 2 a grŵp tasg a gorffen atal codymau yn edrych ar y dull ar gyfer pobl hŷn a byw'n iach. Cymunedau yn Gyntaf Conwy yw 1 o 2 safle yng ngogledd Cymru sy'n treialu'r gwiriad iechyd ar-lein ar gyfer pobl dros 50 oed ac maen nhw wedi cael ymateb cadarnhaol iawn.
1.1.4	Datblygu Polisi Lles Gweithle i alluogi ein gweithlu i gael cydbwysedd gwaith a bywyd ac i gael mynediad i fentrau sy'n gwella iechyd a lles yn y gweithle drwy ddarparu atebion ataliol, e.e., rheoli straen, hyrwyddo Rhaglen Cleifion Arbenigol.	Adnoddau Dynol Corfforaethol	Un Conwy 4.4.2	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2013		Mae'r Fframwaith Iechyd a Lles wedi ei gwblhau ac ar gael i staff ar y fewnwyd. Pan fydd staff yn absennol oherwydd salwch ac yn cael eu atgyfeirio i Iechyd Galwedigaethol, y bwriad yw tynnu eu sylw at y fframwaith hwn.
1.1.5	Hwyluso ymglymiad arweinwyr crefyddol ag ymgyrchoedd wedi'u targedu i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw	Gwasanaeth Datblygu Cymunedol: Ffordd o Fyw Egniol a Creadigol / Tîm Cydraddoldeb		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2012		Nid oes cynnydd penodol wedi'i wneud i hwyluso ymgysylltiad arweinwyr crefyddol mewn ymgyrchoedd hyrwyddo ffordd o fyw iach wedi'i dargedu hyd yma oherwydd prinder adnoddau, er hynny mae ymgyrchoedd ffordd o fyw iach wedi cael eu cynnal ledled Conwy drwy'r tîm Ffyrdd o Fyw Egniol a Chreadigol a hefyd drwy raglenni Partneriaeth, sy'n targedu gordewdra ac ymarfer corff. Mae Cyngor Conwy hefyd yn cyfrannu at Fanc Bwyd Conwy ac mae gan bob un o swyddfeydd y Cyngor flwch ar gyfer derbyn rhoddion bwyd. Mae Banc Bwyd Conwy yn rhan o Arc Communities a sefydlwyd gan gymunedau ffydd ym Mae Colwyn. Mae'r cam gweithredu hwn yn cael ei archwilio ymhellach yn grŵp Rhwydwaith Cydraddoldeb Gogledd Cymru i ystyried a oes modd gwneud hyn mewn partneriaeth ag eraill yn y grŵp.

Gweithredu	Cyfrifoldeb	Croes Gyfeirio	Hil	Anabledd	Rhyw	Ailbennu Rhywedd	Tueddfryd Rhywiol	Oedran	Crefydd/Cred	Priodas/ Partneriaeth Sifil	Beichiogrwydd/ Cyfnod Manolaeth	Cwblhau erbyn	Cynnydd Coch-heb ei wneud Ambr-yn mynd rhagddo Gwyrdd-cwblhawyd / parhaus	Gweithredu a wnaed
1.1.6	Gweithio gyda'n partneriaid ar draws gogledd Cymru i ddatblygu ystod o ffyrdd i gefnogi iechyd corfforol a meddyliol gofalwyr ifanc a gofalwyr eraill.	Gwasanaethau Cymdeithasol Gwasanaethau Datblygu Cymunedol	Un Conwy 4.8.1	✓	✓	✓	✓	✓	✓			2014		Rydym wedi codi ymwybyddiaeth o rôl y gofalwr ar draws Conwy gyda staff yn gweithio o fewn sefydliadau partner a chydag unigolion er mwyn i bobl, yn enwedig gofalwyr cudd a phobl ifanc, gydnabod a nodi eu hunain fel y cyfryw, a'u bod yn medru cael cymorth. Rydym wedi datblygu nifer o stondinau gwybodaeth yng Nghonwy ac yn ddiweddar rydym wedi datblygu gwasanaeth gofalwyr ifanc gyda'n sefydliadau partner Gweithredu dros Blant a Chynnal Gofalwyr. Caiff gofalwyr eu hatgyfeirio at wasanaethau eiriolaeth fel y bo'n briodol – mae'r adroddiad monitro diweddar gan y Gwasanaeth Eiriolaeth Generig yng Nghonwy yn cadarnhau bod gofalwyr yn cael cynnig y gwasanaeth hwn ac yn ei dderbyn. Cynhelir sesiadau gofalwyr gan Swyddogion Gofalwyr, Gweithwyr Cymdeithasol a'r gwasanaeth Therapi Galwedigaethol. Derbynnir atgyfeiriadau o nifer o ffynonellau gan gynnwys hunan-atgyfeiriadau. Gweithiodd y Prosiect Gofalwyr Ifanc gyda Gofalwyr Ifanc Powys (Gweithredu dros Blant yn flaenorol) i ddarparu cefnogaeth, Aseidiadau o Anghenion Gofalwyr a sgiliau bywyd i ofalwyr 16-25 oed. Gweithiodd Prosiect 25+ gyda Cynnal Gofalwyr i ddarparu cefnogaeth, gwybodaeth, cyngor a sgiliau bywyd i ofalwyr 25-40 oed. Ar y cyd â BIPBC, rydym yn rhedeg rhaglen 6 wythnos "Ymdopi a Gofalu gyda Chollod oherwydd Dementia" gan edrych ar y gollod sy'n gysylltiedig â gofalu am rywun â dementia a darparu strategaethau ymdopi a chefnogaeth gan ofalwyr eraill. Mae cyrsiau Gofal Cefn a Symud a Thrafod ar gyfer gofalwyr wedi eu cynnal drwy gydol y flwyddyn. Mae stondinau gwybodaeth wedi eu lleoli mewn gwahanol lefydd yng Nghonwy ac rydym wedi gweithio ar y cyd ag aelodau Rhwydwaith Gofalwyr Conwy i ddarparu gwybodaeth a chynngor ac mae hefyd yn fecanwaith ar gyfer adnabod gofalwyr nad ydym yn gwybod amdanynt.
														Cynhaliwyd digwyddiad "Ydych chi'n Gofalu" ar gyfer staff Conwy ar y cyd â Chynnal Gofalwyr. Rydym wedi gweithredu'r Mesur Gofalwyr a chefnogi BIPBC i ddarparu hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth Gofalwyr ar gyfer Staff Iechyd, ac rydym yn gweithio ar ddull rhanbarthol i ddarparu hyfforddiant lefel 2 ar gyfer Staff Iechyd a staff yr Awdurdod Lleol. Mae Taflen Gwybodaeth Gofalwyr BIPBC bellach wedi ei chwblhau ac mewn cylchrediad. Mae Swyddog Gofalwyr yn Ysbyty Gwynedd yn gweithio gyda Chynnal Gofalwyr a BIPBC. Rydym yn cymryd rhan mewn prosiect rhanbarthol i hyrwyddo'r Cerdyn Argyfwng Gofalwyr o fewn lleoliad iechyd i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun.
1.1.7	Cefnogi pobl i roi'r gorau i ysmegu, h.y. ymgyrchoedd y gwasanaeth Dim Smygu a'r ymagwedd ysgol gyfan	Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles - Sian Lewis	Un Conwy 4.2.1	✓	✓	✓	✓	✓	✓		✓	2014		Mae Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Chymunedau yn Gyntaf yn derbyn blychau adnoddau rheoli tybaco ac alcohol i gefnogi eu hyfforddiant ymyriadau byr gyda defnyddwyr gwasanaeth/aelodau o'r gymuned, a ariennir gan y grant Gweithgareddau Lles. Ceir rhaglen siopwr cudd a arweinir gan Safonau Masnach i brofi arferion manwerthwyr traddodiadol ac ar-lein sy'n gwerthu cynhyrchion â chyfyngiad oedran, gan gynnwys tybaco. Rydym yn cynnal archwiliadau ar sail gwybodaeth leol ar werthu tybaco anghyfreithlon. Cynigir hyfforddiant ymyriadau byr i adrannau a rhaglenni yn y sir e.e. Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Teuluoedd Gwledig yn Gyntaf. Defnyddiwyd cyllid hefyd i brynu adnoddau i'w dosbarthu'n lleol i gefnogi ymgyrch Diwrnod Dim Smygu ym mis Mawrth 2014. Rhoddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru yr ymgyrch 'Stoptober' ar waith ar draws gogledd Cymru. Lledaenwyd gwybodaeth ar draws Conwy. Dan arweiniad Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc trefnuwyd cystadleuaeth o fewn ysgolion i ddylunio logo ar gyfer arwyddion i wahardd ysmegu mewn meysydd chwarae. Darparwyd hyfforddiant i athrawon ysgolion uwchradd (Chwefror 2014) ar draws Conwy a Sir Ddinbych ar agweddau ar atal a rhoi'r gorau i ysmegu, gan gynnwys y rhaglen cyfryngau cymdeithasol dan arweiniad ASH Cymru, sef 'The Filter'.
														Rydym wedi mabwysiadu polisi Camddefnyddio Sylweddau (gan gynnwys tybaco) ar gyfer ysgolion cynradd. Fel rhan o'r gwaith Marchnata Cymdeithasol a noddwyd gan Gynghairir Rheoli Tybaco Gogledd Cymru, gwahoddwyd pob ysgol yng Nghonwy i gymryd rhan mewn arolwg cyffredinolrwydd (blwyddyn 7). Mae'r Gwasanaethau Ieuencid yn darparu sesiynau addysg dwys ac anffurfiol ar thema tybaco ar gyfer pobl ifanc 11-25 oed. Rydym hefyd wedi cefnogi Diwrnod Dim Ysmegu dan faner lleihau niwed, o ddarparu cyflwyniadau sylfaenol i sesiynau blaengar manylach. Mae'r Gwasanaethau Ieuencid yn cydweithio'n agos â gwefan The Filter Ash Cymru i gyflwyno sesiynau i bobl ifanc mewn fforwm cyfryngau cymdeithasol.

	Gweithredu	Cyfrifoldeb	Croes Gyfeirio	Hil	Anabledd	Rhyw	Ailbennu Rhywedd	Tueddfryd Rhywiol	Oedran	Creffyd/Cred	Priodas/ Parthiaeth Sifil	Beichiogrwydd/ Cyfnod Manolaeth	Cwblhau erbyn	Cynnydd Coch-heb ei wneud Ambr-yn mynd rhagddo Gwyrdd-cwblhawyd / parhaus	Gweithredu a wnaed
1.1.8	Gweithredu "Conwy Egniol am Oes" 2011-2014 sy'n cynnwys chwarae, cydraddoldeb mewn chwaraeon, clybiau chwaraeon, hyfforddiant, gwirfoddoli, chwaraeon perfformiad, 5x60, Campau'r Ddraig ac Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol (gan gynnwys lleihau rhwystrau i blant anabl, plant iau a phobl hŷn; gan sicrhau amgylcheddau hygrych a blaenoriaethu merched mewn chwaraeon)	Gwasanaethau Datblygu Cymunedol - Ffyrdd o Fyw Egniol a Chreadigol, Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	Strategaeth Conwy Egniol am Oes 2011-14 Un Conwy 4.2.6	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	2014		Mae camau gweithredu yn cael eu cymryd yn unol â'r cynllun gweithredu gyda chamau gweithredu pellach ar gyfer darparu yn 2014/15. Gwnaed gwelliannau i 7 man chwarae yng Nghonwy yn 2013-14. Roedd hyn yn cynnwys offer chwarae newydd a gwell, offer campfa awyr agored a pharc sglefrio newydd. Mae gwaith ar lwybrau, ffensys, waliau a draenio hefyd yn cael ei wneud i wella hygrychedd sawl lleoliad.  Cynhaliwyd ymgynghoriadau fel rhan o bob prosiect gyda'r gymuned leol, Grŵp Cyfeillion a Chynghorwyr. Sicrhawyd cyllid drwy geisiadau grant llwyddiannus i WREN ac mae llawer o'r prosiectau hefyd yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth a chyllid ychwanegol gan bartneriaid lleol, gan gynnwys Cartrefi Conwy a Heddlu Gogledd Cymru. Mae amrywiaeth o addysg diogelwch ar y ffyrdd yn cael ei gynniig i ddisgyblion yng Nghonwy gan gynnwys hyfforddiant Kerbcraft a beicio. Mae pob sesiwn diogelwch ar y ffyrdd wedi ei anelu at annog plant i fod yn fwy gweithgar wrth aros yn ddiogel ar y ffyrdd a phalmentydd. Mae'r cyfraddau cwblhau llwyddiannus a lefelau cymryd hyd yn parhau'n uchel.
1.3.1	Gweithio mewn partneriaeth i gyrraedd y safonau a nodir yng Nghynllun Gweithredu Conwy ar gyfer y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn a chyflawni'r argymhellion sy'n deillio o adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn, gan sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i dueddfryd rhywiol a hunaniaeth rhyw defnyddwyr gwasanaeth wrth ddarparu gofal.	Gwasanaethau Cymdeithasol	Un Conwy 4.3.1	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	2014		Rydym yn cymryd rhan yn y Fforwm Urddas Mewn Gofal ac wedi ymgymryd ag arolwg Urddas Mewn Gofal a chynhyrchu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r canfyddiadau. Rydym wedi darparu sesiynau hyfforddi ar draws y sector gofal cymdeithasol mewn perthynas â Phobl Hŷn ac Alcohol. Rydym wedi datblygu Sadyrnau Bywn Egniol a Chadarnhaol i bobl dros 50 oed gan gynnig ystod o weithgareddau wedi eu hanelu at wella iechyd a ffitrwydd. Mae Conwy yn arwain prosiect o'r enw Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed gyda phedwar partner yng Nghymru ac Iwerddon. Nod y prosiect yw edrych ar sut gallwn ddatblygu a rhannu ffyrdd o wella cyfathrebu a pherthnasau rhwng pobl o wahanol oed – a elwir hefyd yn waith "pontio'r cenedlaethau". Mae rhestr o'r prosiectau ar gael ar safle cyhoeddus Conwy dan 'Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed'. Mae'r camau gweithredu wedi eu cymryd ac mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol wedi ei ddisodli gan y Fframwaith ar gyfer Gweithredu 2013-2017.
1.3.2	Byddwn yn datblygu ac yn gweithredu Strategaeth Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaethau a fydd yn cynnwys Fframwaith Sicrhau Ansawdd i fesur lefelau bodlonrwydd ac ymgysylltu â'r holl ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n oedolion (gan sicrhau ein bod yn casglu adborth yn ôl nodwedd warchoddedig)	Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion	Cynllun Gwasanaeth Comisiynu Gwasanaethau Oedolion	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	2012		Fel rhan o'r Prosiect Trawsnewid o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol, mae Gwasanaeth Anabledd Integredig wedi ei sefydlu sy'n cynnwys y Tim Plant ag Anableddau, y Gwasanaeth Oedolion ag Anableddau Dysgu, Gwasanaethau Cefnogaeth Anableddau yn y Gymuned a Therapi Galwedigaethol. Mae Rheolwr Gwasanaeth y tim hwn yn gallu goruchwylio mwy ar anghenion Plant ag Anableddau yng Nghonwy a gan hynny gall gomisiynu'r gwasanaeth mwyaf priodol i anghenion plant a phobl ifanc wrth iddynt dyfu'n oedolion. Mae'r gwasanaeth hwn wedi'i sefydlu ar gyfer pobl 0 – 25 oed ac mae'n sicrhau bod plant yn pontio'n ddi-dor i wasanaethau oedolion.
1.3.3	Sicrhau fod pobl sydd â hawl i fudd-daliadau yn eu hawlio, yn enwedig pobl hŷn, pobl gydag anableddau, pobl gyda phroblemau iechyd meddwl, gofalwyr a theuluoedd. Byddwn yn gweithio i sicrhau cynhywsiad ariannol ac yn cyflwyno systemau ar gyfer gweithio gyda sefydliadau sy'n darparu cymorth a chynngor ariannol arbenigol (gan gynnwys hyrwyddo mynediad i Daliadau Uniongyrchol)	Tim Hawliau Lles a Budd-daliadau	Un Conwy 5.6.1, 5.6.6, 4.4.6	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Ar unwaith ac yn barhaus		Rydym yn ymdrechu yn barhaus i sicrhau bod pobl sydd â hawl i fudd-daliadau yn eu hawlio, yn enwedig pobl hŷn, pobl ag anableddau a phroblemau iechyd meddwl, gofalwyr a theuluoedd. Rydym yn cyfarfod yn rheolaidd â'r Ganolfan Cynngor ar Bopeth (CAB), Canolfan Cydweithredol Cymru, CGGC, Shelter Cymru, Adran Gwaith a Phensiynau, RNIB a Chymdeithasau Tai Lleol, ac adrannau eraill Cynngor Conwy, er mwyn sicrhau ein bod yn targedu'r meysydd cywir a gwella ein gwasanaeth i drigolion. Rydym wedi sefydlu Prosiect Diwygio Lles ac rydym yn gweithio'n agos gyda Chartrefi Conwy a CAB i redeg sioeau teithiol a dyddiau cynngor i drigolion. Mae ein tudalennau ar y we wedi eu diweddarau gyda gwbyodaeth am y diwygiadau, yn ogystal â chyfeiriadau cyswllt defnyddiol a thaffenni cynngor. Byddwn hefyd yn ysgrifennu yn rheolaidd at gwsmeriaid yr ydym yn teimlo allai gael eu heffeithio. Rydym wedi penodi Ymgynghorydd Budd-daliadau Lles, sydd wedi bod yn targedu'r rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol ac mae wedi cyfarfod yn bersonol yn awr gyda'r rhan fwyaf o'r rhai yr effeithir arnynt gan yr Uchafswm Budd-daliadau. Mae ein gwefan yn cynnig modd i gwsmeriaid a landlordiaid weld manylion yn hawl Budd-dal Tai a'r Dreth Gyngor ar-lein 24/7 (trwy fynediad PIN diogel) a galliant hefyd ddefnyddio ein cyfrifiannell budd-daliadau a gwneud cais ar-lein am Fudd-dal Tai a'r Dreth Gyngor.
1.3.4	Byddwn yn ymatebol i anghenion diwyllianol a chrefyddol ein poblogaeth pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig sy'n heneiddio wrth wneud darpariaethau ar gyfer gofal ac yn rhoi ystyriaeth i anghenion cyplau sy'n dymuno bod gyda'i gilydd ni waeth beth fo'u rhywioldeb	Gwasanaethau Cymdeithasol	Strategaeth Gomisiynu Gwasanaethau Oedolion	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Ar unwaith ac yn barhaus		Wedi'i ymgoffori o fewn Rhaglen Trawsnewid yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol sydd â datblygu strategaeth Gomisiynu yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol fel allbw.

Gweithredu	Cyfrifoldeb	Croes Gyfeirio	Hil	Anabledd	Rhyw	Ailbennu Rhywedd	Tueddfryd Rhywiol	Oedran	Crefydd/Cred	Priodas/ Partneriaeth Sifil	Baichlogrwydd/ Cyfnod Manolaeth	Cwblhau erbyn	Cynnydd Coch-heb ei wneud Ambr-yn mynd rhagddo Gwyrdd-cwblhawyd / parhaus	Gweithredu a wnaed
1.3.5	Prosiect Rhwng Cenedlaethau (Cymunedau yn Gyntaf) gyda phobl hŷn yn rhoi profiad uniongyrchol i fyfyrwyr ar Gyrsiau Iechyd a Gofal Cymdeithasol.	Gwasanaeth Datblygu Cymunedol - Datblygu Cymunedol yr Arfordir, Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc, Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed	Un Conwy 8.4.1	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		2014		Arweinir Rhwydwaith Rhwng Cenedlaethau Conwy trwy'r ganolfan wybodaeth. Cynhaliwyd gweithdai pontio'r cenedlaethau yng Ngwledd Fwyd Conwy a chynhaliwyd digwyddiad integreiddio gyda Chymdeithas Dai Clwyd Alyn a ddaeth â thrigolion iau a hŷn at ei gilydd gan gynnwys Isallt. Cafodd trigolion Llandudno gyfle i fynychu grwpiau coginio yn Ysgol John Bright, digwyddiad cysylltiedig â Chymunedau yn Gyntaf. Cynhaliwyd digwyddiadau Chwaraeon Boccia, sef digwyddiad oed cynhwysol a chymdeithasol i bob gallu (pobl 80 oed a phlant 8 oed). Cynhaliwyd digwyddiad gwybodaeth am fenter 'Siediau Dynion' ym mis Mawrth 2013, a sefydlwyd gweithgor i ddatblygu 'Siediau Dynion' yng Nghonwy ac i hyrwyddo'r fenter ar draws y sir. Arweiniodd Gyngor Conwy brosiect Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed rhwng mis Ebrill 2011 a mis Mehefin 2014. Roedd y prosiect 3 blynedd yn cynnwys pum partner o Gymru ac Iwerddon. Nod Prosiect Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed oedd datblygu a rhannu ffyrdd o wella cyfathrebu a chysylltiadau rhwng pobl o wahanol oeddrannau a chreu cymunedau sy'n gyfeillgar i bob oedran. Gwerthuswyd y prosiect yn allanol ac mae adroddiad llawn ar gael ar wefan www.agefriendly.info.
1.3.6	Cynnal prosiect peilot i fonitro ansawdd gofal a chydymffurfiaeth â chontractau mewn Cartrefi Preswyl i Bobl Hŷn	Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	2012		Cynhaliwyd prosiect peilot ynghylch monitro cydymffurfiaeth o ran ansawdd a chontract dros gyfnod o 6 mis. Ymwelwyd â chartrefi lle mae pryderon wedi eu codi yn ystod y flwyddyn flaenorol ac mae templed wedi'i gwblhau o ran safonau yn y cartref. Cododd y peilot lawer o faterion yn y cartrefi. Roedd y swyddog monitro yn gallu gweithio gyda'r cartrefi i wella a chodi safonau. Roedd y swyddog hefyd yn gallu monitro cartrefi lle mae cynlluniau gweithredu wedi eu llunio yn dilyn gweithdrefnau Diogelu Oedolion Diamddiffyn a sicrhau bod cynlluniau gweithredu yn cael eu cyflawni. Roedd y prosiect yn llwyddiant a gwnaedpenderfyniad y dylai hyn barhau fel darn parhaol o waith. Penodwyd ail swyddog monitro ym mis Medi 2012 i gefnogi'r swm mawr o waith sydd ei angen wrth fonitro cartrefi yng Nghonwy ac i ymateb i'r nifer cynyddol o bryderon cynyddol o fewn y cartrefi.
1.5.1	Byddwn yn adolygu cyfleoedd gofal dydd ac yn gweithio gyda chymunedau i edrych ar gyfleoedd i gefnogi pobl yn eu hardal ac i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lleihau stigma (gan gynnwys gwaith o ran tueddfryd rhywiol, hunaniaeth ac iechyd meddwl)	Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion	Un Conwy 4.6.11	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	2014		Mae'r adolygiad o'r cyfleoedd gofal dydd wedi ei gwblhau. Rydym wedi cyfarfod gydag arweinwyr prosiect cymunedol yn Llanrwst i archwilio sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i gefnogi pobl yn eu cymunedau. Mae'r Grŵp Datrysiadau Symud Ymlaen hefyd yn gweithio gyda chymunedau i alluogi pobl ag anableddau dysgu i fanteisio ar gyfleoedd cymdeithasol a hamdden.
1.5.2	Byddwn yn adolygu'r polisi mewn perthynas â pherthnasoedd a rhywioldeb i wella ymwybyddiaeth staff a chw'rdd ag anghenion penodol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau gofal i oedolion (gan gynnwys anghenion penodol pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol a Phobl Ddu a Llesiafrifoedd Ethnig)	Gwasanaethau Oedolion	Gwasanaethau Oedolion a Cynllun Gwasanaeth Uned Darparwyr	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	2012		Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wedi gweld bod angen adolygu holl bolisiau a gweithdrefnau'r adran. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd ar wasanaethau i ystyried anghenion pob unigolyn a sicrhau ein bod yn diwallu'r angen mewn partneriaeth, gan alw ar asedau a chryfderau'r person i ganfod datrysiad. Oherwydd yr angen am ddull gweithio cyd-gynhyrchiol, bydd y materion hyn yn cael eu hystyried fel mater o drefn wrth asesu anghenion. Rhoddir ystyriaeth bellach fel rhan o'r adolygiad polisi.
1.5.3	Byddwn yn rhoi cymorth i unigolion a theuluoedd sy'n cael anhawster oherwydd bod aelod o'r teulu'n Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol neu Drawsrywiol ac yn 'dod allan' i sicrhau eu bod yn cael cymorth i osgoi antantais	Gwasanaethau Cymdeithasol Plant Budd-daliadau Tai		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		Ar unwaith ac yn barhaus		Rydym wedi cael hyfforddiant arbenigol yn ddiweddar a gyflwynwyd gan Gyngor Dinas Manceinion o gwmpas LGB a materion arfer sydd angen eu hamlygu fel rhan o'r broses asesu.
1.5.4	Adnabod a chymryd camau gweithredu i fynd i'r afael â'r diffyg darpariaeth yng Nghonwy i roi cymorth i bobl ifanc sy'n Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol neu'n Cwestiynu eu rhywioldeb. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i'w cyfeirio at AVIVA fel eu bod yn gallu archwilio materion gydag ymgynghorwyr arbenigol	Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc	Nod Craidd 5 - PPI	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Ebrill 2013		Mae rhwydwaith wedi ei sefydlu yng Nghonwy i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau, ac mae prosiect yn cael ei dreialu ar hyn o bryd gan Viva i ddarparu grŵp cymorth i bobl ifanc LGBTQ drwy sesiwn galw heibio clwb ieuencid a chodi ymwybyddiaeth mewn ysgolion. Nid yw Canolfan Ragoriaeth LGBT Cymru yn bodoli bellach. Mae Grŵp Gorchwyl LGBTQ wedi'i sefydlu i ddatblygu'r gwaith yn dilyn cwblhau'r profil gwasanaeth ac ymgynghori. Mae prosiect yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gyda VIVA i ddarparu sesiynau galw heibio mewn ysgolion i godi ymwybyddiaeth o'r problemau a brofir gan bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol a pobl ifanc sy'n cwestiynu eu rhywioldeb yng Nghonwy. Darparu gweithdai codi ymwybyddiaeth a datblygiad profesiynol ar gyfer ymarferwyr sy'n cyflwyno cymorth i bobl ifanc.

	Gweithredu	Cyfrifoldeb	Croes Gyfeirio	Hil	Anabledd	Rhyw	Ailbennu Rhywedd	Tuedd/ryd	Rhywiol	Oedran	Crefydd/Cred	Priodas/Partneriaeth Sifil	Baichlogrwydd/ Cyfnod Manolaeath	Cwblhau erbyn	Cynnydd Coch-heb ei wneud Ambr-yn mynd rhagddo Gwyrdd-cwblhawyd / parhaus	Gweithredu a wnaed
				✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓			
1.6.1	Byddwn yn asesu anghenion Gofalwyr sy'n gofyn am asesiad ac yn darparu eiriolaeth cyffredinol ar gyfer oedolion a gofalwyr	Gwasanaethau Cymdeithasol WIRED	Cynllun Gwasanaeth Comisiynu Gwasanaethau Oedolion Un Conwy 8.2.4	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓			Ar unwaith ac yn barhaus		Mae asesiadau o anghenion gofalwyr yn cael eu cynnal gan Swyddogion Gofalwyr, Gweithwyr Cymdeithasol a gwasanaeth Therapi Galwedigaethol. Derbynnir atgyfeiriadau gan nifer o ffronellau gan gynnwys hunan-atgyfeiriadau. Rydym wedi bod yn allweddol o ran codi ymwybyddiaeth o rôl y gofalwr ar draws Conwy gyda staff sy'n gweithio o fewn sefydliadau partner a gydag unigolion er mwyn i bobl, yn enwedig gofalwyr cudd a gofalwyr ifanc, gydnabod a nodi eu hunain fel y cyfryw, a gallu cael cymorth. Mae gennym nifer o stondinau gwybodaeth yng Nghonwy ac yn ddiweddar rydym wedi datblygu gwasanaeth gofalwyr ifanc gyda'n sefydliadau partner Gweithredu dros Blant a Chynnal Gofalwyr. Caiff gofalwyr eu cyfeirio ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth fel y bo'n briodol. Mae'r adroddiad monitro diweddar gan y Gwasanaeth Eiriolaeth Generig yng Nghonwy yn cefnogi ac yn rhoi tystiolaeth o waith sy'n cael ei wneud yng Nghonwy.
1.6.2	Byddwn yn darparu ystod o wasanaethau ar gyfer pobl â dementia a'u gofalwyr (tîmau gofal mewnol arbenigol, canolfan arbenigol yn Llys Elian a chan gynnwys darparu gofal dydd)	Gwasanaethau Cymdeithasol	Cynllun Gwasanaeth Comisiynu Gwasanaethau Oedolion	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓			Ar unwaith ac yn barhaus		Rydym yn darparu ystod o wasanaethau arbenigol ar gyfer pobl sy'n dioddef o dementia a'u gofalwyr yng Nghonwy ac mae Tîmau Dementia yn seiliedig yn y Gymuned yn darparu gwasanaethau ar draws sir Conwy. Rydym yn sicrhau bod ein staff yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i gefnogi pobl â dementia a'u gofalwyr. Mae tair lefel o hyfforddiant yn cael ei darparu ar gyfer staff mewnol ac allanol. Ym mis Gorffennaf 2012: Ar Lefel 1 (Ymwybyddiaeth), roedd 107 o staff wedi derbyn hyfforddiant. Ar lefel 2 (Sgiliau ar gyfer gweithio gyda pobl â dementia), roedd 144 o staff wedi derbyn hyfforddiant ac ar Lefel 3 (Rheoli Gwasanaethau Dementia), roedd 16 o reolwyr wedi derbyn hyfforddiant.
1.6.3	Parhau i sicrhau bod ein staff yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i gefnogi pobl â dementia a'u gofalwyr, er mwyn eu galluogi i aros yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hwy.	Gwasanaethau Cymdeithasol	Un Conwy 4.3.5	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓			2014		Rydym yn sicrhau bod gan ein staff y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i gefnogi pobl â dementia a'u gofalwyr. Darperir tair lefel o hyfforddiant ar gyfer staff mewnol ac allanol. Mae Partneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn parhau i ddyrannu arian ar gyfer Hyfforddiant Dementia - rydym yn darparu cyrsiau ar gyfer y sector gofal cymdeithasol ar draws Conwy.
1.6.4	Byddwn yn gweithio gyda phobl ifanc (a'u teuluoedd) ag anableddau corfforol a dysgu ac anghenion iechyd meddwl, er mwyn nodi a fydd angen cefnogaeth arnynt pan fyddant yn oedolion i hwyluso'r newid o fod yn blentyn i fod yn oedolyn.	Gwasanaethau Cymdeithasol	Un Conwy 4.4.7	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		2014 Dyddiad cwblhau diwygiedig 2015		Fel rhan o'r Prosiect Trawsnewid o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol, mae Gwasanaeth Anabledd Integredig wedi ei sefydlu sy'n cynnwys y Tîm Plant ag Anableddau, y Gwasanaeth Oedolion ag Anableddau Dysgu, Gwasanaethau Cefnogaeth Anableddau yn y Gymuned a Therapi Galwedigaethol. Mae Rheolwr Gwasanaeth y tîm hwn yn gallu goruchwylio mwy ar anghenion Plant ag Anableddau yng Nghonwy a gan hynny gall gomisiynu'r gwasanaeth mwyaf priodol i anghenion plant a phobl ifanc wrth iddynt dyfu'n oedolion. Mae'r gwasanaeth hwn wedi'i sefydlu ar gyfer pobl 0 – 25 oed ac mae'n sicrhau bod plant yn pontio'n ddi-dor i wasanaethau oedolion.
1.6.5	Adolygu'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau i bobl sydd ag anableddau dysgu i wneud yn siŵr ein bod yn ymateb i anghenion unigol, gan ystyried integreiddio a chynaliadwyedd cymdeithasol a chymunedol ehangach	Gwasanaethau Cymdeithasol	Un Conwy 4.4.9	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		2014 Dyddiad cwblhau diwygiedig 2015		Mae Gwasanaeth Anabledd wedi'i sefydlu ar gyfer pobl 0 – 25 oed ac mae'n sicrhau bod plant yn pontio'n ddi-dor i wasanaethau oedolion. Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd ar lefel ranbarthol, ar 'Asesiad o Anghenion Poblogaeth', sy'n cynnwys BIPBC. Bydd hyn yn cymryd integreiddio cymdeithasol a chymunedol ehangach i ystyriaeth ac yn hyrwyddo'r agenda atal ac ymyrraeth gynnar.
1.6.6	Gwaith i gyflwyno Cynllun Gweithredu "Siarad â Mi" i leihau cyfraddau hunanladdiad a hunan-niwed yng ngogledd Cymru mewn partneriaeth gyda'n partneriaid.	Gwasanaethau Oedolion	Un Conwy 4.5.3	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		2014 Dyddiad cwblhau diwygiedig 2015		Mae'r Cynllun Gweithredu "Beth am Siarad â Fi?" wedi cael ei ddarparu ac mae'r gweithgareddau a gynhaliwyd yn cynnwys- <ul style="list-style-type: none"> <li>Gosod arwyddion "Ffoniwch y Samariaid" mewn lleoliadau sy'n cael eu hystyried yn rhai risg uchel yng Nghonwy.</li> <li>Mae gwybodaeth ynglŷn â'r 5 Awgrym Llesol ar gael i staff drwy'r fewnryd.</li> <li>Mae mesurau ataliol hefyd wedi'u datblygu mewn ymateb i ddadansoddiad o ddata hunanladdiad yng Nghonwy.</li> <li>Mae staff wedi cael hyfforddiant i godi eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o lechyd Meddwl, gan gynnwys Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl.</li> <li>Mae polisi Iechyd Meddwl a Lles hefyd wedi'i ddatblygu a'i weithredu i hyrwyddo ac annog lles meddyliol da ymysg gweithwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy drwy wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth staff o broblemau iechyd meddwl a lles.</li> </ul>
1.6.7	Hyrwyddo hyfforddiant i wella sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o ran iechyd meddwl ac anableddau dysgu e.e. Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, Hyfforddiant Sgiliau Ymyriadau Hunanladdiad Cymwysedig a Safetalk.	Rheolwr Hyfforddiant Corfforaethol / Hyfforddiant y Gwasanaethau Cymdeithasol MIND	Un Conwy 4.5.7	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓			2014		Mae cynllun hyfforddi 2014-15 yn cynnwys amrywiaeth o bynciau a fydd yn gwella gwybodaeth a sgiliau staff, mae'r rhain yn cynnwys; Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl, Dementia Cynnar, Anhwylder Personoliaeth Ffinsiol, Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl mewn Oedolion, Salchwyl Iechyd Meddwl Difrifol (nid Dementia), Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, Ymwybyddiaeth Hunanladdiad, Amddifadu o Ryddid / Deddf Galluedd Meddyliol (yn enwedig yng ngoleuni dyfarniad gorllewin Swydd Gaer). Mae yna hefyd raglen lawn o hyfforddiant ar gyfer Gweithwyr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymwys i sicrhau eu bod yn cadw eu cofrestriad fel Gweithwyr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymwys.

	Gweithredu	Cyfrifoldeb	Croes Gyfeirio	Hil	Anabledd	Rhyw	Ailbennu Rhywedd	Tueddfryd Rhywiol	Oedran	Crefydd/Cred	Prifodas/ Partneriaeth Sifil	Beichiogrwydd/ Cyfnod Manolaeth	Cwblhau erbyn	Cynnydd Coch-heb ei wneud Ambr-yn mynd rhagddo Gwyrdd-cwblhawyd / parhaus	Gweithredu a wnaed
1.6.8	Cadw darpariaeth cwnsela (profedigaeth) ar gyfer disgyblion mewn ysgolion uwchradd trwy CRUZ a sicrhau bod yr holl ysgolion cynradd yn ymwybodol o sefydliadau cymorth a bod disgyblion yn gallu cael eu hailgyfeirio fel y bo'n briodol	Gwasanaethau Plant a Theuluoedd		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓			Ar unwaith ac yn barhaus		Mae'r gwasanaeth hwn yn parhau i fod ar waith i bobl ifanc gael mynediad at CRUZ pan fo hynny'n briodol. Mae gwasanaethau addysg yn ymwybodol pryd i wneud atgyfeiriadau at y gwasanaeth hwn.
1.6.9	Cefnogi plant a phobl ifanc i gael lles emosiynol a chymdeithasol sy'n eu galluogi i ymdopi â straen arferol bywyd a chyflawni eu potensial, h.y. darparu hyfforddiant ar iechyd emosiynol plant, codi ymwybyddiaeth a darparu cefnogaeth benodol i blant (a'u rhieni) sydd ag Anhwyllder ar y Sbectrwm Awstistig	Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc	Un Conwy 4.5.4	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓			2014		Mae'r Grŵp Llywio Iechyd Emosiynol yn canolbwyntio ar gynllun cyflenwi ar gyfer hyfforddiant ym maes rheoli hunan-niweidio bwriadol, iselder, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywioigrwydd, anhwylderau bwyta, llwybrau atgyfeirio, PATHS (Hyrwyddo Strategaethau Meddwl Amgen) ac anhwylder sbectrwm awstistiaeth. Cynhaliodd Prosiect Iechyd Emosiynol a Meddylol i Cyngor Ieuencid waith ymchwil ar iechyd emosiynol i weld yr hyn sydd ar gael i bobl ifanc a sefydlwyd gwefan CAMHS <a href="http://www.mental-health-matters.org.uk">www.mental-health-matters.org.uk</a> . Cynhaliwyd seminarau Anhwyllder Sbectrwm Awstistig. Gweithredwyd model y Tim o Amgylch y Teulu o fis Mawrth 2013 ac mae cymorth wedi ei ddarparu ar fudd-daliadau, tai a blaendaliadau, ac mae unigolion wedi eu cyfeirio at yr Undeb Credyd, HOST, Hawliau Lles a Chyngor ar Bopeth. Trefnodd y Gwasanaeth Seicoleg Addysg a'r Cydlynnydd Ysgolion Iach gynhadledd i ysgolion cynradd ac uwchradd i godi ymwybyddiaeth o seiber-fwlio ac i lansio'r polisi gwrth-fwlio newydd ar gyfer ysgolion. Cynhaliwyd adolygiad o'r gwasanaethau cymorth bugeiliol mewn ysgolion uwchradd, cynhyrchwyd adroddiad terfynol a gwnaethpwyd argymhellion.
															Rydym wedi rhannu'r adroddiad ar yr adolygiad o hunan-niweidio ac wedi trafod y ffyrdd y gellid codi proffil y llwybr hunan-niwed o fewn y sector uwchradd. Hyrwyddwyd y llwybr yn y Fforwm Penaeithiad Uwchradd gan y Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ac Atal. Yn dilyn rhyddhau'r DVD 'Plant sy'n Derbyn Gofal', aeth Grŵp Llywio Iechyd Emosiynol at Brifysgol Bangor i drafod y posibilrwydd o gynnwys y darn hwn o waith fel rhan o'r cwrs 'Tystysgrif Addysg i Raddedigion' i godi ymwybyddiaeth athrawon newydd gymhwyso o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn blentyn sy'n derbyn gofal. Mae hyn bellach wedi ei ymgorffori o fewn y cwricwlwm. Cynhaliodd y Rhaglen Addysgol Vi-ability (Prosiect Teuluoedd yn Gyntaf) brosiect 'Winning Mentality' i helpu pobl ifanc a rhieni â phroblemau iechyd meddwl a chodi ymwybyddiaeth drwy chwaraeon (pêl-droed yn bennaf). Cymerodd dros 1300 o blant a phobl ifanc ran yn y 59 o weithdai Winning Mentality a gynhaliwyd mewn ysgolion cynradd, gyda rhieni hefyd yn elwa ar lyfrynnau a sesiynau rhannu gwybodaeth. Cymerodd 124 o bobl ifanc ran yn y 7 sesiwn Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl yn Ysgol Emrys Ap Iwan ac Ysgol John Bright.

Gweithredu	Cyfrifoldeb	Croes Gyfeirio	Hil	Anabledd	Rhyw	Ailbennu	Rhywedd	Tuedd/ryd	Rhywiol	Oedran	Credyd/Cred	Priodas/Partneriaeth Sifil	Beichiogrwydd/Cyfnod	Manolfaeth	Cwblhau erbyn	Cynnydd Coch-heb ei wneud Ambr-yn mynd rhagddo Gwyrdd-cwblhawyd / parhaus	Gweithredu a wnaed
<b>Amcan 2: Gostwng canlyniadau anghyfartal mewn Addysg er mwyn cynyddu potensial unigol</b>																	
2.1.1	Cefnogi plant a phobl ifanc i arwain ffordd o fyw iach, hy, sgrinio iechyd, addysg iechyd rhyw, blas am oes (gan gynnwys rhoi'r cyfle i ddisgyblion gael trafodaethau sy'n ddiogel ac yn briodol i'w hoedran am eu rhywioldeb a'u cyfeirio at ganolfannau cymorth a gwybodaeth penodol)	Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc	Un Conwy 4.2.4	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Ar unwaith ac yn barhaus		<p>Iechyd Rhywiol – mae pob nyrs ysgol yn derbyn hyfforddiant diweddarau blynyddol o ran iechyd rhywiol ac yn treulio 6 awr bob blwyddyn yn y Clinig Iechyd Rhywiol i gael profiad ymarferol. Maent hefyd yn cael eu hyfforddi i ddarparu'r bilsen atal cenhedlu hormonaid brys yn y sesiynau galw heibio gyda'r nyrs ysgol ac yn parhau i fynychu ysgolion uwchradd i drafod dulliau atal cenhedlu gyda disgyblion blwyddyn 9. Cynigir brechiadau HPV i bob merch ym mlwyddyn 8 ac uwch. Rydym yn cysylltu â'r Metron Ardal, i drafod rhoi dulliau atal cenhedlu brys i ferched ifanc os byddant yn gofyn amdanynt. Er mwyn cefnogi disgyblion beichiog a mamau ifanc o oedran ysgol, mae cynllun peilot llwyddiannus wedi ei gynnal yn Ysgol John Bright gyda chynlluniau i drafod datblygiadau yn y dyfodol.</p> <p>Mae gweithredu'r rhaglen Blas am Oes mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn cael ei fonitro gan holiaduron hunanasesu ac ymgynghoriad Bwyta'n Iach mewn Cymuned Dysgu Proffesiynol Ysgolion. Darperir hyfforddiant i gefnogi ysgolion i sefydlu a chynnal gweithgarwch Grŵp Gweithredu Maeth Ysgol sydd wedi'i gynnwys yn rhaglen Ysgolion Iach pob ysgol. Mae digwyddiad Gŵyl Fwyd Ysgolion Conwy a gynhaliwyd ym mis Hydref 12 a Ionawr 13 yn sicrhau gwaith partneriaeth rhwng aelodau SNAG/BoBs yr ysgolion uwchradd o wahanol ysgolion ar draws Conwy, gan annog rhyngweithio rhwng cyfranogwyr uwchradd a chynradd. Darparodd digwyddiad Gŵyl Bwyd Ysgolion Conwy 2012/13 gyfle i 110 aelod SNAG/BoBs uwchradd leded Conwy ddarparu gweithdai maeth a sgiliau coginio ymarferol i gyfanswm o 604 o ddisgyblion ysgol cynradd, (gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a gwyddoniaeth i mewn i'r gweithdai), a oedd wedyn yn rhaeadr'u wybodaeth a gafwyd i'w cyfoedion cynradd. Mae'r adorth wedi bod yn gadarnhaol iawn gyda disgyblion yn datgan bod y profiad wedi effeithio ar eu sgiliau gwybodaeth am fwyd a sgiliau coginio. Mae mesurau ar y gweill i ddatblygu strategaethau i sicrhau cysondeb a chynaliadwydd rhaglen Blas am Oes Conwy.</p>
2.1.2	Rhoi cymorth i ddisgyblion o oedran ysgol sy'n feichiog a darparu gofal plant ar gyfer mamau ifanc	Addysg	Un Conwy 1.2.6	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	2015		Caewyd y cyfleuster crèche ym Mae Colwyn yn 2013. Mae cyfleuster i roi cymorth i ddisgyblion oedran ysgol beichiog a gofal plant ar gyfer mamau ifanc bellach yn cael ei ddarparu gan y Tim o Amgylch y Teulu.	
2.1.3	Nodi a datblygu strategaethau i hwyluso gwell mynediad i addysg ffurfiol ac anffurfiol, gan arwain at fwy o 'Blant sy'n Derbyn Gofal' yn gadael addysg statudol a mynd i mewn i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.	Addysg Coleg Llandrillo Gyrfa Cymru	Un Conwy 1.2.4	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	2014		<p>I hwyluso gwell mynediad i addysg ffurfiol ac anffurfiol er mwyn sicrhau bod mwy o'n plant sy'n "derbyn gofal" yn symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth, rydym wedi mabwysiadu Protocol (sy'n cael ei adolygu'n flynyddol) sy'n cynnwys cyfarfodydd rheolaidd gyda Choleg Llandrillo, y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Swyddog Lles Myfyrrwr er mwyn monitro datblygiad myfyrrwr unigol. Mae proses y Cynllun Addysg Personol bellach yn cynnwys y ddogfen 'cynllunio symud ymlaen' gan Gyfa Cymru sy'n helpu plant sy'n derbyn gofal i gynnwys ar gyfer y dyfodol gyda mynediad i addysg bellach. Yn ystod Blwyddyn Academaidd 2012/13, roedd canlyniadau arholiadau allanol yn gadarnhaol iawn ar ddiwedd CA4 ac fe aeth 26 o bobl ifanc sy'n derbyn gofal ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu waith o ganlyniad i gefnogaeth a gyllidwyd gan grantiau a mentrau effeithlonrwydd ysgol, megis blaenoriaethu offer TG yn dilyn cefnogaeth gan Ysgol Rhithwir ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal / y Tim Rhianta Corfforaethol. Fodd bynnag, mae risg y gallai gostyngiad mewn cyllid y Grant Effeithlonrwydd Ysgol effeithio ar ganlyniadau yn y dyfodol. Mae cyfarfod wedi ei gynnal rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol, Grŵp Coleg Llandrillo ac Addysg i ddiweddar'u protocol i ymestyn y profiwl Goleuadau Traffig Plant sy'n Derbyn Gofal presennol i gynnwys 01-16 er mwyn tracio cynnydd a datblygiad y disgyblion a nodi/gweithredu ar faterion posibl. Cytunwyd y bydd y Profiwl Myfyrrwr electronig ar gyfer pob myfyrrwr yn gweithredu fel Cynllun Addysg Personol y person ifanc. Mae'r cyfarfodydd monitro misol sy'n cael eu cynnal yn hyrwyddo cyfathrebu ac yn arwain at fonitro datblygiadau myfyrrwr yn agosach. Bydd hyn yn cael ei ymestyn i Brifysgol Bangor a sefydliadau addysg uwch eraill.</p>	

Gweithredu	Cyfrifoldeb	Croes Gyfeirio	Hil	Anabledd	Rhyw	Ailbennu Rhywedd	Tueddfryd Rhywiol	Oedran	Crefydd/Cred	Priodas/Partneriaeth Sifil	Beichiogrwydd/Cyfnod Manolaeth	Cwblhau erbyn	Cynnydd Coch-heb ei wneud Ambr-yn mynd rhagddo Gwyrdd-cwblhawyd / parhaus	Gweithredu a wnaed
2.1.4	Defnyddio rhaglen ymyrraeth Catch-up Oxford Brookes, gweithio i ateb gofynion y Cynllun Llythrennedd Cenedlaethol trwy sicrhau bod gan yr holl blant ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 oedran darllen o 9.6 o leiaf. Bydd y data ar y canlyniadau'n cael ei ddangos yn ôl nodweddion gwarchoddedig a bydd ystyriaeth o ran y targed hwn yn cael ei rhoi i blant ag anableddau dysgu	Addysg		✓	✓	✓	✓	✓	✓			Ar unwaith ac yn barhaus		Darparwyd hyfforddiant blynyddol gan ddefnyddio rhaglen Catch-up Oxford Brookes Llythrennedd ar gyfer Cynorthwyyr Addysgu nad ydnt wedi derbyn hyfforddiant o'r blaen ym mis Medi 2012 ac mae cyrsiau pellach yn cael eu trefnu ym mis Ionawr 2013. Mae ysgolion sydd wedi ymrwmo i'r ymyrraeth hon ac yn ei darparu'n gyson fel a ragnodir yn dangos cynnydd sylweddol o ran oedran darllen mewn ddisgyblion targed (cynnydd o 15 i 24 mis mewn ymyriad 12 mis). Blwyddyn ar ôl blwyddyn bu gostyngiad sylweddol yn nifer y dysgwyr sy'n tangyflawni mewn darllen (6 i 18 mis y tu ôl i'w hoedran cronolegol). Mae prawf darllen newydd a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn dod yn statudol ym mis Mai 2013 sy'n golygu y bydd yn anodd cymharu'r data hwn yn y dyfodol.
2.1.5	Sicrhau bod yr holl Athrawon yng Nghyfnod Allweddol 2 yn mynychu cwrs ffurfiol ar llythrennedd i'w harfogi ymhellach â strategaethau i roi cymorth i blant gyflawni eu sgiliau sylfaenol	Addysg Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc		✓	✓	✓	✓	✓	✓			Ar unwaith ac yn barhaus		Mae rhaglen i sicrhau bod pob Athro Cyfnod Allweddol 2 yn mynychu cwrs llythrennedd i gefnogi disgyblion yn parhau. Cwblhaodd Athrawon Blwyddyn 3 hyfforddiant yn 2010/11 ac Athrawon Blwyddyn 4 yn 2011/12. Mae cynllun gweithredu wedi ei gynhyrchu ar gyfer pob UCD (Uned Cyfeirio Disgyblion). Bydd y camau gweithredu yn cael eu monitro gan y grŵp rheoli UCD. Bydd cynllun gweithredol yn cael ei gynhyrchu i symud ymlaen gyda'r cam hwn (2.1.6). Mae hyfforddiant ar gwr Llythrennedd wedi'i gwblhau ar gyfer pob Athro Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4.
2.1.6	Targedu adnoddau i hyfforddi Athrawon Cymorth a Chynorthwyyr Addysgu ym mhob lleoliad addysgol yn ALI Conwy i adnabod a rhoi cymorth i unigolion ag anghenion penodol o ran llythrennedd ac anableddau dysgu a fydd yn arbennig o berthnasol i ddisgyblion Duon ac Ethnig Lleiafrifol a disgyblion Anabl	Addysg		✓	✓	✓	✓	✓	✓			Ar unwaith ac yn barhaus		Mae cynllun gweithredu yn gwbl weithredol a chaiff ei fonitro gan staff a pwyllgor rheoli'r UCD.
2.1.7	Gweithio gyda phobl ag anableddau, sy'n rhieni i 'blant mewn angen', i sicrhau bod anghenion rhieni yn cael eu cydnabod ac yn cael sylw, gan gynnwys cefnogaeth ac eiriolaeth i fagu plant a datblygu sgiliau bywyd.	Plant a Theuluoedd	Un Conwy 4.6.10 ac 8.2.4	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	2014 Dyddiad cwblhau diwygiedig 2015		Fel rhan o'r Prosiect Trawsnewid o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol, mae Gwasanaeth Anabledd Integredig wedi ei sefydlu sy'n cynnwys y Tim Plant ag Anableddau, y Gwasanaeth Oedolion ag Anableddau Dysgu, Gwasanaethau Cefnogaeth Anableddau yn y Gymuned a Therapi Galwedigaethol. Mae'r gwasanaeth hwn wedi'i sefydlu ar gyfer pobl 0 – 25 oed ac mae'n sicrhau bod plant yn pontio'n ddi-dor i wasanaethau oedolion. Mae hyn hefyd yn cwmpasu gwaith gyda Rhieni ag Anableddau (Anabledd 25 a mwy) a gweithio gyda phlant ar Gynllun Gofal a Chymorth.
2.1.8	Byddwn yn datblygu ymyriadau dan y Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Mae meysydd perthnasol yn cynnwys y grŵp oedran 0-3 a phlant o oedran cyn-ysgol i leihau effaith anghydraddoldeb magwraeth ar lefelau cyrhaeddiad yn yr ysgol	Teuluoedd yn Gyntaf ac Addysg	Un Conwy 1.1.6	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	2015		Cafodd CAST Cymru eu comisiynu i ddarparu cymorth i deuluoedd diamddiffyn sydd â phroblemau iechyd emosiynol - yn enwedig lle y gallai bywyd ysgol y plentyn gael ei effeithio. Mae'r prosiect wedi darparu hyfforddiant 'Fast Forward', sydd wedi'i gynllunio i gynorthwyo teuluoedd diamddiffyn i symud i'r ysgol uwchradd, i staff mewn 7 ysgol. Cefnogydd cyfanswm o 22 o rieni a 24 o blant/ pobl ifanc ac roedd y manteision yn cynnwys mwy o hyder o ran cefnogi plant, gwelliannau mewn perthnasau teuluol a gwell cysylltiadau rhwng ysgolion a rhieni. Mae'r NICOS (Rhaglen Meithrin Rhieni) yn rhaglen a gomisiynir i gefnogi plant ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a'u cadw yn yr ysgol brif frwd drwy hyfforddi staff allgymorth i gefnogi rhieni unigol drwy'r rhaglen feithrin. Derbyniodd 21 o rieni 96 sesiwn unigol rhyngddynt drwy gydol 2014-15. Nododd y rhieni hyn well bywyd teuluol, gwell rheolaeth o ran ymddygiad a gwell perthnasau rhwng cartrefi ac ysgolion. Comisiynwyd Gweithredu dros Blant i ddarparu cymorth rhianta i rieni sydd â phlant 0-5 oed - yn enwedig rhieni nad oeddent yn gymwys ar gyfer rhaglenni a ddarperir gan Dechrau'n Deg. Drwy gydol y flwyddyn cafodd 126 o rieni gefnogaeth - 38 ohonynt trwy'r gwasanaeth llinell ffôn y mae Gweithredu dros Blant yn ei gynnal. Darparwyd 9 o raglenni meithrin ac elwodd 130 o blant oddi wrth eu rhieni'n mynychu rhaglenni rhianta.



Gweithredu	Cyfrifoldeb	Croes Gyfeirio	Hil	Anabledd	Rhyw	Ailbennu Rhywedd	Tueddifyd Rhywiol	Oedran	Crefydd/Cred	Priodas/ Parthriaeth Sifil	Beichiogrwydd/ Cyfnod Manolaeth	Cwblhau erbyn	Cynnydd Coch-heb ei wneud Ambr-yn mynd rhagddo Gwyrdd-cwblhawyd / parhaus	Gweithredu a wnaed
2.1.9	Canfod plant a phobl ifanc nad ydynt, neu mewn perygl o beidio bod, mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET), fel bod modd cynnig cymorth/darpariaeth priodol	Addysg Gyrfu Cymru Taith i Waith Rhwydwaith 14-19 Hyfforddiant Gogledd Cymru	Un Conwy 1.1.2	✓	✓	✓	✓	✓	✓			2015		14-19 * Mae'r Cynllun Gweithredu Fframwaith Ymgysylltiad Ieuenctid a Dilyniant wedi cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r cynnydd a wnaed ers mis Hydref 2013. *Mae gwell gwaith partneriaeth a chyflwyno protocol rhannu gwybodaeth wedi lleihau'r ffigur NEET ar gyfer Conwy o 3.6% yn 2013 i 1.8% yn 2014. *Mae Offeryn Adnabod Cynnar rhanbarthol wedi cael ei ddatblygu a'i ddefnyddio yn yr holl ysgolion uwchradd ar draws Gogledd Cymru i nodi a chefnogi dysgwyr sydd mewn perygl mwyaf o NEET. * Mae Panel Ymgysylltu â Phobl Ifanc Conwy yn olrhain pobl ifanc 16-19 oed sydd yn Haenau 1 a 2 a lle bo modd, yn darparu cymorth a darpariaeth/llywbrau i EET. *Mae Prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop (TRAC) yn cael ei ddatblygu ar gyfer rhai 11-24 oed ar draws rhanbarth Gogledd Cymru. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar 1) dysgwyr mewn ysgolion 11-19 sydd mewn perygl mwyaf o NEET, 2) pobl ifanc 16-24 sydd mewn perygl mwyaf o NEET a 3) pobl ifanc 16-24 sy'n NEET. Bydd y prosiect yn darparu cefnogaeth ac ymyrraeth yn arbennig i'r bobl ifanc hynny â rhwystrau lluosog / cymhleth. * mae prosiectau CGE cenedlaethol eraill hefyd yn cael eu datblygu a fydd yn darparu cymorth / darpariaeth bellach ar gyfer rhai 16+ sy'n NEET ac sydd â rhwystrau wedi'u nodi. Bydd angen i'r rhain gyd-fynd â'r prosiect TRAC i osgoi dyblygu.
2.1.10	Gweithio gyda Gyrfu Cymru i ddabtygu cynlluniau gyrfaoedd ar gyfer disgyblion ar ôl TGAU i gau'r bwch rhwng bechgyn a merched (sydd wedi gwrthdroi erbyn y cam hwn), o ran derbyn addysg uwch neu ddilyn cyrsiau prifysgol a galwedigaethau proffesiynol, er mwyn cael effaith gadarnhaol ar y bwch cyflog rhwng y rhywiau	Addysg gyda Gyrfu Cymru		✓	✓	✓	✓	✓	✓			2012 ac yn barhaus		Mae'r Cydlynnydd 14-19 yn gweithio gyda Gyrfu Cymru i ddatblygu cyngor cynllunio gyrfu i ddisgyblion ôl TGAU i leihau'r bwch rhwng bechgyn a merched sy'n dilyn cyfleoedd addysg uwch. Lanswyd gwefan newydd Gyrfu Cymru ar gyfer pobl ifanc, rhieni a gweithwyr proffesiynol ym mis Rhagfyr 2012 ac mae'n cynnwys gwybodaeth am y farchnad lafur, swyddi gwag a chynllunio gyrfaoedd. Mae dysgwyr ym Mlynnyddoedd 10-13 yn cwblhau cynllun llwybr dysgu sy'n cysylltu ag Arweiniad Gyrfaoedd. Mae'r Rhwydwaith 14-19 wedi bod yn hyrwyddo cyfleoedd prentisiaeth mewn partneriaeth â Gyrfu Cymru. Mae bylchau cyflogaeth lleol a rhanbarthol wedi eu hamlygu yn y prosiectws LINC Conwy ar gyfer 2013-14. Er mwyn hwylyso gwell mynediad i addysg ffurfiol ac anffurfiol er mwyn galluogi mwy o'n plant "sy'n derbyn gofal" i fynd i addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth, rydym wedi mabwysiadu Protocol sy'n cynnwys cyfarfodydd rheolaidd gyda Choleg Llandrillo, Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Swyddog Lles Myfyrwyr i fonitro datblygiad myfyrwyr unigol. Mae'r Cynllun Addysg Personol bellach yn cynnwys 'cynllunio symud ymlaen' gyda Gyrfu Cymru, sy'n cynorthwyo gyda chynllunio ar gyfer addysg bellach.
2.1.11	Adolygu gwaharddiadau yng Nghonwy dros gyfnod o 5 mlynedd i ystyried unrhyw dueddiadau yn ôl grwpiau gwarchoddedig, gan gynnwys plant ag AAA. Llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldeb	Addysg		✓	✓	✓	✓	✓	✓			2012 ac yn barhaus		Mae data sydd ar gael wedi ei ddadansoddi ar gyfer nodweddion a ddiogelir Prydau Ysgol am Ddim a Phlant sy'n Derbyn Gofal. O gyfanswm y Gwaharddiadau rhwng 2009 a 2013, roedd 36% - 51% yn y categori prydau ysgol am ddim. Roedd canran isel - 1.9% - 9.3% yn Blant sy'n Derbyn Gofal. Mae'n awgrymu bod Gwaharddiadau yn gysylltiedig ag amddifadedd. Mae'r Protocol Trosglwyddo a Reolir sydd wedi ei ddatblygu ac sydd ar waith yn anelu i reoli gwaharddiadau ac mae Prosiect Potensial yn anelu at gadw pobl ifanc wedi ymgysylltu. Bydd camau gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn cael eu nodi trwy gynllunio busnes blynyddol ac yn cael ei adrodd trwy Gynllun y Gwasanaeth Addysg.
2.1.12	Rhoi camau gweithredu ar waith ym mhob Ysgol yng Nghonwy i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a dyletswyddau penodol 2011	Addysg		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	2.4.2012 ac yn barhaus		Mae Ysgolion Uwchradd Conwy ac UCD Sector Uwchradd, NNAS ac AIT Ed wedi derbyn hyfforddiant ac mae cynlluniau ar waith. Mae templed Adrodd Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi ei rannu sy'n gofyn i ysgolion adrodd ar gamau gweithredu a chynnydd hyd yma gan ddefnyddio templed LIC wrth fodloni gofynion statudol. CYNRADD - dal i fod yn barhaus. Mae hyfforddiant ar fabwysiadu'r Polisi Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu ac adrodd drwy Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr yn parhau.
2.1.13	Gweithredu mecanwaith fel bod unrhyw ohebiaeth a anfonir at rieni'n cynnwys datganiad sy'n gofyn a oes arnynt angen unrhyw gyfleusterau arbennig pan eu bod yn mynychu cyfarfodydd a nosweithiau rhieni mewn ysgolion er mwyn cwrrd ag unrhyw ofynion penodol sy'n ymwneud ag anabledd (e.e. Iaith Arwyddion Prydain) ac/neu anghenion ieithyddol a diwylliannol (e.e. cyfieithydd ar y pryd)	Pob Ysgol drwy'r Awdurdod Addysg Lleol	Fel rhan o Un Conwy 8.3.2	✓	✓	✓	✓	✓	✓			Ar unwaith ac yn barhaus		Mae'r cam hwn yn y Cynllun Gweithredu Ysgolion. Bydd ysgolion yn adrodd ar eu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb yn eu Hadroddiad Blynyddol.

Gweithredu	Cyfrifoldeb	Croes Gyfeirio	Hil	Anabledd	Rhyw	Ailbennu Rhywedd	Tueddifyd Rhywiol	Oedran	Creffydd/Cred	Priodas/ Partneriaeth Sifil	Beichiogrwydd/ Cyfnod Manolaeth	Cwblhau erbyn	Cynnydd Coch-heb ei wneud Ambr-yn mynd rhagddo Gwyrdd-cwblhawyd / parhaus	Gweithredu a wnaed
2.1.14	Bydd gan yr holl blant sy'n "Derbyn Gofal" Gynllun Addysg Personol sy'n cynnwys cyfarfodydd ar y cyd rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Addysg, er mwyn amcanu at gynyddu deilliannau cyrhaeddiad ar gyfer y grŵp hwn	Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac Addysg		✓	✓	✓	✓	✓	✓			Ar unwaith ac yn barhaus		Fel rhan o broses llunio ac adolygu'r Cynllun Addysg Personol – ymgynghorir â phob Plentyn sy'n Derbyn Gofal ynghylch cynnwys eu Cynllun, eu teimladau am eu haddysg ac am eu hanghenion. Mae'r sylwadau hyn yn cael eu nodi ar dudalennau 2 a 3 o'r Cynllun Addysg Personol ac yn cael eu hadlewyrchu yn y targedau a osodwyd ar gyfer y disgybl yn y Cynllun. Mae pob disgybl sy'n Derbyn Gofal o fewn ysgolion uwchradd yn cwblhau'r holiadur PASS electronig (Agweddau Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol), ddwywaith y flwyddyn. Mae'r holiadur yn cwmpasu elfennau ynglŷn ag addysg y disgybl fel 'Agwedd at Ddysgu'. Mae canfyddiadau'r holiadur hefyd yn bwydo i mewn i'r Cynllun Addysg Personol a'i dargedau. Mae'r pecyn yn offeryn olrhain a monitro defnyddiol. Mae gan bob disgybl sy'n Derbyn Gofal fynediad at staff cefnogi ac Athro Dynodedig ym mhob ysgol a all weithredu fel eiriolwr ar gyfer y disgybl. Bydd pob disgybl sy'n Derbyn Gofal yn cael Cynllun Addysg Personol cyn pen 20 diwrnod o fynd i ofal neu newid ysgol. Felly, dylai 100% o ddisgyblion sy'n Derbyn Gofal gael Cynllun Addysg Personol. Mae'r broses hon wedi'i hymgorffori ac yn barhaus.
2.2.1	Adolygu polisiâu ac arferion atal bwlio ym mhob ysgol yng Nghonwy bob 3 blynedd	Addysg		✓	✓	✓	✓	✓	✓			Parhaus bob 3 blynedd		Mae Polisiâu Bwlio ar waith ym mhob ysgol yng Nghonwy. Rydym yn aros i Lywodraeth Cymru (LIC) ymgymryd ag arolwg o farn plant a phobl ifanc am thema ar gyfer wythnos gwrth-fwlio Tachwedd (2013) a bydd yr adborth hwn yn cael ei adolygu i ystyried a oes angen adolygiad pellach o'n polisiâu. Bydd aelodau o Rwydwaith Gwrth-fwlio Llywodraeth Cymru yn trefnu rhaglen y bydd Conwy yn ei hadlewyrchu. Mae Rhwydwaith Gwrth-fwlio Cymru yn archwilio'r potensial i ddatblygu pecyn cymorth i helpu ysgolion i fonitro bwlio - bydd y sail dystiolaeth hon yn cael ei defnyddio gyda golwg ar ddatblygu canllawiau newydd i ysgolion ac ALL. Mae'r Panel Ymgynghorol ABCh EG yn ystyried cynigion i lunio cynlluniau gwersi yn seiliedig ar fwlio sy'n seiliedig ar ryw. Bydd Conwy yn eu haddasu ar gyfer eu gweithredu unwaith y byddant ar waith. Y llynedd, cafodd Conwy ei ganmol mewn erthygl yn y wasg gan y BBC fel un o dim ond dau awdurdod lleol yng Nghymru i gasglu data dadelfenedig ar fwlio mewn ysgolion.
2.2.2	Bydd yr holl staff mewn ysgolion, Llywodraethwyr Ysgolion ac aelodau o Gynghorau Ysgol yn derbyn hyfforddiant ar reoli bwlio i sicrhau y rhoddir sylw priodol i fwlio ar sail hunaniaeth	Addysg		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	2013		Darparodd Llywodraeth Cymru hyfforddiant ar reoli bwlio mewn Ysgolion ym mis Mai 2012. Gwahoddwyd pob ysgol i fynychu.
2.2.3	Dylai polisiâu atal bwlio gynnwys teithio ar fysiau ysgol a rhoi sylw i adroddiadau am ddigwyddiadau y tu allan i'r ysgol	Addysg/ Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc / Priffyrdd ac Isadeiledd		✓	✓	✓	✓	✓	✓			Parhaus		Mae trafodaethau parhaus yn mynd rhagddynt o ran Polisiâu Bwlio yn cael eu hymestyn i deithio ar fysiau ysgol ac yn union y tu allan i dir yr ysgol. Mae data CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion) yn rhoi trosolwg o ddigwyddiadau bwlio yn yr ysgolion ac mae'r rhain yn cael eu monitro. Mae gweithdrefnau monitro ar waith yn unol â phrotocol yr Awdurdod Lleol. Mae data yn cael ei gasglu yn flynyddol ar fwlio drwy Ystadegau Medi a bydd yn cynnwys digwyddiadau sydd wedi eu hadrodd sydd wedi digwydd ar gludiant ysgol.
2.2.4	Adolygu adborth a gafwyd gan rieni wrth ymgynghori ynghylch y Cynllun Plant a Phobl Ifanc (a gwybodaeth ymgynghori arall) mewn perthynas â bwlio er mwyn dylanwadu ar y cyfeiriad yn y dyfodol	Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc ac Addysg	Un Conwy 2.7.1	✓	✓	✓	✓	✓	✓			2012		Cafwyd adborth positif o'r ymgynghoriad ar fwlio gan rieni a disgyblion, a drefnwyd er mwyn bod yn sail i gyfeiriad y dyfodol. Adolygwyd y cwestiynau a ofynnir i ysgolion ynglŷn â bwlio mewn ymgynghoriad â Grŵp Nod Craidd 2. Bydd y cwestiynau adolygedig yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau ysgolion (Addysg). Bydd y data a gasglwyd yn parhau i gael ei ddadansoddi yn flynyddol er mwyn nodi problemau a thueddiadau yn ysgolion Conwy. Yn ystod blwyddyn academaidd 2012/13 roedd galw enwau, herian a bwlio corfforol yn gyffredin mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Rhannwyd y wybodaeth hon â Phenaeithiaid ar y pryd.  Cynhaliwyd cynadleddau gwrth-fwlio i godi ymwybyddiaeth o ddulliau lliniaru bwlio a dosbarthwyd Polisi Bwlio newydd Ysgolion Conwy i bob ysgol. Casglwyd adborth am y cynadleddau a'r polisiâu ac roedd 100% o'r ysgolion a ymatebodd yn teimlo fod y polisi yn addas i'r diben ac nad oedd angen gwneud unrhyw newidiadau. Dywedodd nifer o ysgolion eu bod wedi cynnal gweithgareddau yn ystod yr wythnos gwrth-fwlio. Enillodd un ysgol gynradd gystadleuaeth genedlaethol gyda ffilm a wnaethant yn dilyn eu cynhadledd. Bydd y gwaith o goladu data bwlio mewn ysgolion yn parhau ac mae bellach wedi'i fewnosod yn narpapiaeth y gwasanaeth Addysg.

	Gweithredu	Cyfrifoldeb	Croes Gyfeirio	Hil	Anabledd	Rhyw	Ailbennu Rhywedd	Tueddfryd Rhywiol	Oedran	Crefydd/Cred	Prifodas/ Partneriaeth Sifil	Beichiogrwydd/ Cyfnod Manolaeth	Cwblhau erbyn	Cynnydd Coch-heb ei wneud Ambr-yn mynd rhagddo Gwyrdd-cwblhawyd / parhaus	Gweithredu a wnaed
2.2.5	Canfod bylchau ac atgyfnerthu'r neges wrthfwlio a gaiff ei chyfleu mewn ysgolion trwy sicrhau bod gwybodaeth sy'n seiliedig ar ymchwil briodol ar gael i blant, pobl ifanc a rhieni (a chodi ymwybyddiaeth disgyblion o iaith briodol, e.e. osgoi galw disgybl arall yn hoym fel sarhad bwriadol, a rhwymedigaethau troseddol)	Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc ac Addysg	Un Conwy 2.7.2	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓			2012		Gan ddefnyddio gwybodaeth CYBLD gallwn nodi materion a phatrymau penodol o fwlio yn ein hysgolion. Mae hyn yn llywio hyfforddiant pellach i ysgolion i gefnogi meysydd y nodwyd bod angen cymorth pellach arnynt.
2.2.6	Datblygu ac ehangu hyfforddiant y Gwasanaeth Ieuenctid ar ddefnyddio rhwydweithiau cymdeithasol, gan gynnwys materion moesegol fel bwlio, aflonyddu a throseddau casineb	Gwasanaeth Datblygu Cymunedol: Gwasanaeth Ieuenctid Conwy	Un Conwy 2.7.3	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		2014		Mae'r Gweithiwr Digidol wedi darparu sesiynau ymwybyddiaeth yn ystod gwasanaethau ysgol. Mae'r sesiynau ymwybyddiaeth wedi eu darparu ar y cyd â'r Ymarferydd Gwaith Ieuenctid lleol. Mae sesiynau wedi eu darparu i bobl ifanc yn ystod gwasanaethau mewn 7 ysgol uwchradd. Cynhaliwyd 57 o sesiynau mewn clybiau ieuenctid. Mae sesiynau wedi eu cyflwyno i oedolion, gan gynnwys grŵp o famau ifanc yn Llanrwst, ac mewn noson rieni yn Ysgol John Bright. Mae Staff y Gwasanaeth Ieuenctid hefyd wedi cael hyfforddiant CEOP yn ystod eu hyfforddiant amddiffyn plant. Mae hyfforddiant CEOP hefyd wedi ei gyflwyno i nyrsys ysgol ac mae sesiwn wedi ei gyflwyno mewn digwyddiad rhwydweithio Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy (CGGC).
2.2.7	Rhoi'r cyfle i bobl ifanc ymweld â PentrePeryglon, canolfan sy'n addysgu plant a phobl ifanc mewn ymwybyddiaeth o ddiogelwch ac yn hyrwyddo iechyd, lles a diogelwch cymunedol	Partneriaeth Diogelwch Cymunedol	Un Conwy 2.8.1	✓	✓	✓	✓	✓	✓				2013		Rydym wedi parhau i roi cyfle i bobl ifanc ymweld â PentrePeryglon, canolfan sy'n addysgu plant a phobl ifanc mewn ymwybyddiaeth o ddiogelwch ac sy'n hyrwyddo iechyd, lles a diogelwch cymunedol. Mae hwn yn brosiect hirsefydlog a ariennir yn rhannol gan y partneriaeth diogelwch cymunedol a fydd yn aros yn ei le tan fis Mawrth 2013. Fodd bynnag, mae materion cyllid y tu hwnt i'r dyddiad hwn o ganlyniad i newidiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn y meini prawf ar gyfer prosiectau cymwys.
2.2.8	Cynyddu ymwybyddiaeth disgyblion am faterion cydraddoldeb trwy eu prif-ffrydio mewn gweithgareddau dysgu pob dydd	Addysg		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		Ar unwaith ac yn barhaus		Mae hyfforddiant cydraddoldeb wedi ei gwblhau o fewn ysgolion uwchradd ac mae'n cael ei gyflwyno i ysgolion cynradd. Bydd monitro yn digwydd er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth disgyblion drwy gyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol i brif-ffrydio cydraddoldeb i mewn i ddysgu bob dydd. Mae hyfforddiant a gafwyd ar gyfer monitro'r sector uwchradd yn barhaus trwy'r Archwiliad Addysgu a Dysgu. Mae ysgolion yn gyfrifol am godi a chynnal ymwybyddiaeth disgyblion drwy Adroddiadau Blynnyddol Cynllun Addysg Sengl. Cynradd - dal i fod yn barhaus. Mae hyfforddiant yn parhau i gael ei gyflwyno i ysgolion ar y Polisi Cydraddoldeb a'r Cynllun Gweithredu a hefyd y gofynion adrodd blynnyddol trwy Adroddiad Blynnyddol y Llywodraethwyr. Mae ysgolion yn gyfrifol am godi a chynnal ymwybyddiaeth disgyblion drwy Adroddiadau Blynnyddol Cynllun Addysg Sengl.

	Gweithredu	Cyfrifoldeb	Croes Gyfeirio	Hil	Anabledd	Rhyw	Ailbennu	Rhywedd	Tuedd/ryd	Rhywiol	Oedran	Creffyd/Cred	Priodas/Parthriaeth Sifil	Beichiogrwydd/Cyfnod	Manolaeth	Cwblhau erbyn	Cynnydd Coch-heb ei wneud Ambr-yn mynd rhagddo Gwyrdd-cwblhawyd / parhaus	Gweithredu a wnaed
<b>Amcan 3: Lleihau anghydraddoldeb mewn Cyflogaeth a Thâl</b>																		
3.1.1	Adolygu ymgeiswyr Anabl a Phobl Ddu a Lleihafiroedd Ethnig o ddata monitro cyflogaeth a chynnal arolwg o ymgeiswyr, i ystyried pam nad yw cyfraddau penodi mor uchel ag ar gyfer ymgeiswyr eraill. Gweithredu i gywiro unrhyw ddiffygion ac adrodd yn ôl ar yr adroddiad blynyddol.	Adnoddau Dynol Corfforaethol	Adroddiad Monitro Cyflogaeth 2011	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		Adroddiad blynyddol 1af 2013		Cynhaliwyd arolwg yn 2013 i geisio cael adborth gan ymgeiswyr anabl a Phobl Duon a Lleihafiroedd Ethnig (BME) a ddefnyddiodd ein proses recriwtio. Nid oedd dadansoddiad o'r wybodaeth hon yn awgrymu bod unrhyw rwystrau amlwg i ymgeiswyr BME nac anabl. Ers hynny rydym wedi cyflwyno recriwtio ar-lein sy'n cynnig ffyrdd eraill o ymgeisio er mwyn diwallu anghenion pob rhan o'r gymuned. Hefyd, rydym wedi nodi cam gweithredu i wella ymwybyddiaeth o swyddi gwag i wahanol grwpiau a ddiogelir, ac mae hyn wedi'i gynnwys yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd.
3.1.2	Cynnal hyfforddiant adnewyddu ar gyfer rheolwyr sy'n recriwtio pan gaiff polisi diwygiedig ei gyhoeddi, gan amlinellu eu cyfrifoldebau dan y Ddeddf Cydraddoldeb, y cynllun tic dwbl, ac o ran gwneud addasiadau rhesymol ar adeg y cyfweiliad ac wrth ystyried yr ymgeisydd gorau ar gyfer y swydd, gan sicrhau proses deg a thryloyw	Adnoddau Dynol Corfforaethol		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓			Rhagfyr 2012		Mae ein Polisi Recriwtio wedi ei ddiwygio a'i ailgyhoeddi sydd wedi ein galluogi i gryfhau ein safbwynt polisi mewn nifer o feysydd, gan gynnwys adborth awtomatig i bob ymgeisydd cymwys dan y cynllun "tic dwbl" (3.1.5), dogfennau cymeradwyo recriwtio i arwain rheolwyr i ystyried dewisiadau eraill i weithio llawn amser (3.1.12), a chodi ymwybyddiaeth o'r polisi (gan gynnwys Ddeddf Cydraddoldeb 2010, addasiadau rhesymol yn y cyfweiliad ac unwaith yn y swydd) drwy hyfforddiant Recriwtio a Dethol parhaus.
3.1.3	Cynhyrchu dogfen gyfarwyddyd i reolwyr sy'n rhoi gwybodaeth gyfoes am y broses Mynediad i Waith ar gyfer rheolwyr a gweithwyr	Adnoddau Dynol Corfforaethol		✓												Rhagfyr 2012		Mae dogfen gyfarwyddyd wedi'i drafftio i roi gwybodaeth ddiweddar i reolwyr ynglŷn â'r gwasanaeth Mynediad i Waith.
3.1.4	Cynnal dadansoddiad o weithwyr beichiog a'r rhai sydd ar gyfnod mamolaeth i gadarnhau ein cred bod y grŵp hwn o weithwyr yn cael eu trin yn deg a chyfartal mewn prosesau cyflogaeth yn ystod y cyfnod hwn	Adnoddau Dynol Corfforaethol			✓		✓	✓	✓			✓	✓			Adroddiad blynyddol 1af 2013		Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud fel rhan o'r adroddiad monitro cyflogaeth blynyddol ac adroddir arno yn yr adroddiad hwnnw.
3.1.5	Cyflwyno system o adborth awtomatig i bob ymgeisydd cymwys dan y cynllun tic dwbl (a chynnwys grwpiau ffiniol eraill) a gofyn am eu hadborth hefyd	Pob Rheolwr sy'n Recriwtio		✓												Adroddiad blynyddol 1af 2013		Mae'r holl ymgeiswyr yn cael cynnig adborth yn awtomatig yn dilyn cyfweiliad.
3.1.6	Gweithio i gefnogi pobl ifanc sy'n gadael ysgol i dderbyn addysg bellach, hyfforddiant neu waith, gan gynnwys unigolion anodd eu cyrraedd 16 oed neu hŷn i'w cefnogi i gynyddu eu sgiliau, symud yn nes at gyflogaeth a chyflawni eu potensial	Genesis a Taith i Waith	Un Conwy 1.4.5, 1.2.3	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓					2015		Mae Gwaith Amdani yn darparu'r Gwasanaeth Genesis /Taith i Waith, nawr bod y cylch hwn o gyllid CGE wedi dod i ben. Yn ogystal mae Opus, Communities 4 Work a PACE i gyd yn brosiectau CGE sy'n cael eu datblygu a fydd yn darparu gwasanaeth i unigolion 25+ oed

Gweithredu	Cyfrifoldeb	Croes Gyfeirio	Hil	Anabledd	Rhyw	Ailbennu Rhywedd	Tueddfryd Rhywiol	Oedran	Crefydd/Cred	Priodas/ Partneriaeth Sifil	Beichiogrwydd/ Cyfnod Manolaeth	Cwblhau erbyn	Cynnydd Coch-heb ei wneud Ambr-yn mynd rhagddo Gwyrdd-cwblhawyd / parhaus	Gweithredu a wnaed
3.1.7	Cynyddu hygrychedd profiad gwaith ar draws y gwasanaeth cyhoeddus (gan sicrhau ein bod yn gallu cynnig cymysgedd o brofiad gwaith â thâl a di-dâl i bob grŵp gan gynnwys y rheiny sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein gweithlu)	Bwrdd Gwasanaethau Lleol Adnoddau Dynol Corfforaethol Porth Ymgysylltu Genesis	Un Conwy 1.4.9, 1.4.10	✓	✓	✓	✓	✓	✓			2015		<p>Mae 417 o leoliadau profiad gwaith wedi'u darparu ar draws Conwy i amrywiaeth o grwpiau. Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol i archwilio lleoliadau gwaith ar gyfer ein Plant sy'n Derbyn Gofal ac yn mynychu a chefnogi ein panel NEETS. Mae 42 o brentisiaethau hefyd wedi cael eu cynnig, gyda sesiynau codi Ymwybyddiaeth Prentisiaeth yn cael eu darparu i fyfyrwyr blwyddyn 10-12 ym mhob Ysgol Uwchradd yng Nghonwy, fel rhan o'r Wythnos Prentisiaethau Cenedlaethol. Mae Prosiect Datblygu Gweithlu BGLI wedi gwneud datblygiadau ym maes gwella profiad gwaith a gynigir ar draws partneriaid gwasanaeth cyhoeddus yng Nghonwy a Sir Ddinbych. Gwnaeth y prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu A-Y o yrfaedd yn y Gwasanaethau Cyhoeddus i hyrwyddo ac annog pobl i fynd am brofiad gwaith yn ein sefydliadau perthnasol.</li> <li>• Dylunio ffenestr recriwtio profiad gwaith newydd er mwyn i ni ymateb i'r ceisiadau niferus am brofiad gwaith mewn ysgolion.</li> <li>• Datblygu pecyn cymorth profiad gwaith manwl gydag ystod o dempledi i sicrhau bod ein rheolwyr yn cynnig lleoliadau gwaith o ansawdd.</li> <li>• Dylunio fframwaith Sgiliau Cyflogadwyedd newydd i alluogi rheolwyr i asesu sgiliau cyflogadwyedd lleoliadau gwaith tra ar leoliadau profiad gwaith.</li> <li>• Datblygu cysylltiadau cryf â'r Ganolfan Byd Gwaith i sicrhau bod sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yn cynnig cyfleoedd i oedolion.</li> </ul> <p>O ganlyniad i'r prosiect, cynyddodd cyfanswm nifer y lleoliadau profiad gwaith o 131 i 375 ers dechrau'r prosiect. Daeth y prosiect i ben ym mis Rhagfyr 2014, fodd bynnag, fel rhan o'r trefniadau etifeddiaeth ar gyfer y prosiect, mae'r tîm yn parhau i gyfarfod yn chwarterol i barhau a datblygu'r gwaith da a gyflawnwyd eisoes gan y prosiect.</p>
3.1.8	Cynyddu nifer ac ansawdd y cyfleoedd prentisiaeth. Cynyddu nifer ac ansawdd y cyfleoedd prentisiaeth yn y Gwasanaeth Cyhoeddus, Busnesau a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig	Bwrdd Gwasanaethau Lleol gyda CBSC	Un Conwy 1.4.12	✓	✓	✓	✓	✓	✓			2015		<p>Gweithiodd prosiect Datblygu Gweithlu BGLI yn llwyddiannus ar y cyd ar draws partneriaid gwasanaeth cyhoeddus yng Nghonwy a Sir Ddinbych i gynyddu nifer ac ystod y prentisiaethau yn y ddwy sir. Datblygodd/ cynhyrnodd y prosiect nifer o fentrau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygodd Becyn Gwybodaeth Prentisiaeth cynhwysfawr i gael ei ddefnyddio ar dudalennau recriwtio prentisiaid i hyrwyddo prentisiaid yn y gwasanaeth cyhoeddus.</li> <li>• Dylunio taflen wybodaeth i rieni i sicrhau bod rhieni yn gwybod beth yw manteision dilyn y llwybr prentisiaeth.</li> <li>• Creu canllaw er mwyn cwblhau ffurflenni cais prentisiaethau yn llwyddiannus</li> <li>• Cynhyrchu pecyn gwybodaeth i reolwyr i'w ddefnyddio wrth recriwtio / cefnogi prentisiaid.</li> <li>• Dylunio "llwybr prentisiaeth i gyflogaeth" newydd er mwyn i'n prentisiaid ddilyn eu gyrfa ddeuwisedig unwaith y bydd eu prentisiaeth yn dod i ben.</li> <li>• Datblygu gweithdai rhyngweithiol i bobl ifanc mewn ysgolion i hyrwyddo manteision prentisiaethau</li> <li>• Creu dyddiadur fideo prentisiaeth i'w ddefnyddio ar y tudalennau recriwtio prentisiaid, gan roi blas o sut beth yw gweithio gyda'r Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws Conwy a Sir Ddinbych. Yn ystod cyfnod y prosiect -</li> <li>• dyblodd nifer y prentisiaethau (o 70 yn 2010 i 140 yn 2014)</li> <li>• mae nifer y fframweithiau prentisiaeth wedi cynyddu (2 yn 2010 i 17 yn 2014)</li> <li>• mae ystod yr adrannau sy'n recriwtio prentisiaid wedi cynyddu (o 24 i 74 ers 2010)</li> </ul> <p>Daeth y prosiect i ben ym mis Rhagfyr 2014, ond mae'r tîm yn dal i gyfarfod bob chwarter i ddatblygu'r gwaith da hwn.</p>
3.1.9	Cefnogi'r sgiliau llythrennedd a rhifedd sydd angen ar bobl ifanc ac oedolion yng Nghonwy drwy raglenni hyfforddiant priodol, gan gynnwys pecynnau hyfforddiant a chymorth a thrwy'r addewid i gyflogwyr	Adnoddau Dynol Corfforaethol - Carole Gooderham	Un Conwy 1.5.2 ac 1.5.4	✓	✓	✓	✓	✓	✓			2014/15		<p>Mae'r cyllid Addewid y Cyflogwr wedi newid, fodd bynnag mae ein hymgyrch i gynyddu nifer y cyfleoedd Prentisiaeth ar draws Conwy wedi parhau. Mae Sgiliau Hanfodol yn ffurfio elfen bwysig o'r fframwaith.</p>
3.1.10	Cyflwyno system amser hyblyg diwygiedig sy'n darparu ar gyfer anghenion rhieni gyda phlant oedran ysgol a gofalwyr eraill	Adnoddau Dynol Corfforaethol		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2012		<p>Cafodd polisi Amser Hyblyg newydd ei roi ar waith yn 2015. Mae'r Polisi yn cael gwared ar y trefniadau oriau craidd blaenorol a gan hynny mae'n llawer mwy manteisiol i rieni a gofalwyr gan eu bod yn gallu addasu eu horiau gwaith i gyd-fynd â'u hymrwymadau personol, yn amodol ar y galw yn y gwaith.</p>

	Gweithredu	Cyfrifoldeb	Croes Gyfeirio	Hill	Anabledd	Rhyw	Ailbennu	Rhywedd	Tueddfryd	Rhywiol	Oedran	Crefydd/Cred	Priodas/	Partneriaeth Sifil	Beichiogrwydd/	Cyfnod	Manolaeath	Cwblhau erbyn	Cynnydd Coch-heb ei wneud Ambr-yn mynd rhagddo Gwyrdd-cwblhawyd / parhaus	Gweithredu a wnaed
				✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓			
3.1.11	Nodi pobl sydd angen cymorth i wella eu sgiliau, cymwysterau, profiad a chyflogadwyedd a'u cyfeirio at y darparwyr cymorth mwyaf priodol, e.e., Genesis, Taith i Waith, Clybiau Gwaith, Golygfa Gwydir. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant mewn meithrin hyder, hunan-barch, a chyflogadwyedd	Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion Gyrfa Cymru Canolfan Waith Clwyd Alyn Coleg Llandrillo	Un Conwy 1.4.1 ac 1.4.3	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Ar unwaith ac yn barhaus at 2015		Mae ein hadran Anableddau Dysgu wedi bod yn nodi pobl sydd angen cymorth i wella eu sgiliau, cymwysterau, profiad a chyflogadwyedd. Hyd yn hyn maent wedi gweithio gyda 113 o gyfranogwyr sydd eisoes wedi rhagori ar y targed o 100 erbyn mis Chwefror 2014. Mae 11 o bobl wedi ennill cymhwyster ac mae 9 arall wedi mynd i ddsygu pellach.
3.1.12	Adolygu dogfennau cymeradwyo Recriwtio, er mwyn sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddeisiadau amgen i weithio llawn amser, e.e. rhannu swydd, prentisiaeth, gwirfoddoli, rhan-amser ac ati, pryd bynnag y bo'n ymarferol	Adnoddau Dynol Corfforaethol		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2012		Mae'r Ffurflen Rheoli Swyddi Gweigion wedi ei diwygio yn unol â hynny
3.1.13	Adolygu ein polisiâu Bwlio ac Aflonyddu i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â throseddau casineb a cham-drin domestig, aflonyddu 3ydd parti, gan nodi grwpiau agored i niwed, e.e., aflonyddu ar sail Anabledd, bwlio fydd/aflonyddu yn erbyn pobl LGBT a mynd i'r afael â'r ofn o "hierarchaethau o fewn nodweddion a ddiogelir"	Adnoddau Dynol Corfforaethol		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2012		Mae'r Polisi yn Erbyn Aflonyddwch yn y Gwaith wedi'i adolygu a'i ail-lansio ac mae'n cynnwys y materion sy'n ymwneud â throseddau sy'n cael eu hystyried yn droseddau casineb. Mae gennym bolisi ar wahân ar gam-drin domestig a thrais rhywiol yn erbyn merched yn y gweithle sy'n mynd i'r afael â'r materion hyn ar y cyd. Mae Aflonyddwch Trydydd Parti wedi cael ei ddi-ddymu o'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r polisi Bwlio yn cael ei ddiweddarau yn 2016.
3.1.14	Datblygu polisi trawsrywiol sy'n cynnwys cyflogaeth a darparu gwasanaeth	Adnoddau Dynol Corfforaethol		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Ebrill 2013		Mae polisi Trawsryweddol wedi cael ei ddrafftio ac mae wedi bod yn destun ymgynghoriad ac mae'n aros am gymeradwyaeth drwy'r broses gorfforaethol a democrataidd.
3.1.15	Codi ymwybyddiaeth o'r Polisi, proses a gweithdrefn Disgyblu, yn enwedig yn y gwasanaethau sy'n cael eu dominyddu gan ddynion ac mewn gwasanaethau lle mae staff yn gweithio allan yn y gymuned ar gyfer llawer o'u diwrnod gwaith, er mwyn sicrhau cysondeb o ran dull gweithredu	Adnoddau Dynol Corfforaethol	Adroddiad Monitro Cyflogaeth 2011	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2012		Mae ymwybyddiaeth o'r Polisi Disgyblu yn cael ei gynnwys yn y sesiynau grŵp hyfforddiant Cydraddoldeb Arddel Amrywiaeth. Yn benodol, mae'r perthnasedd yn cael ei roi mewn perthynas ag unrhyw weithred a allai gael ei ystyried yn wahaniaethu. Mae'r sesiynau hyn wedi eu cyflwyno yn fisol ers mis Gorffennaf 2012 ac mae sesiynau wyneb yn wyneb yn cael eu targedu at staff rheng flaen o bob rhan o'r Awdurdod, nad oes ganddynt fynyddiad at gyfrifiadur.
3.1.16	Datblygu ymhellach rôl Cefnogwyr Cydraddoldeb Gwasanaeth - annog eu cyfranogiad mewn adnabod a rhoi cyhoedduswydd i astudiaethau achos cadarnhaol sy'n gysylltiedig â gwaith ar gyfer nodweddion a ddiogelir gwahanol, i gynyddu ymwybyddiaeth o fewn yr awdurdod, e.e., gweithwyr gwrywaidd/benywaidd sy'n gweithio mewn rolau nad ydynt yn ystrydebol o ran rhyw	Adnoddau Dynol Corfforaethol		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2012		Mae Cefnogwyr Cydraddoldeb wedi eu nodi ar gyfer pob maes gwasanaeth ar draws Cyngor Conwy, er bod hyn yn amodol ar newid wrth i ailstrwythuro mawr ddod i rym. Er mwyn datblygu ymhellach ymwybyddiaeth Cefnogwyr Cydraddoldeb o faterion cydraddoldeb sy'n effeithio ar staff a defnyddwyr gwasanaeth, gwahoddir siaradwr gwadd i'r cyfarfodydd chwarterol sydd wedi bod yn fuddiol. Mae Cefnogwyr Cydraddoldeb wedi siarad â staff o fewn eu meysydd gwasanaeth er mwyn eu hannog i rannu astudiaethau achos cadarnhaol sy'n gysylltiedig â gwaith. Nid yw hyn yn rhywbeth y mae staff yn gyffredinol wedi bod yn gyfforddus ag ef, ond bydd hyn yn cael ei godi eto pan fyddwn yn dod i redeg ffeiriau recriwtio nesaf.
3.1.17	Dadansoddi data arolwg staff 2012 o ran gwahaniaethu a straeu, ymchwilio i unrhyw achos sylfaenol a nodi camau gweithredu priodol i unioni	Adnoddau Dynol Corfforaethol, lechyd a Diogelwch Corfforaethol	Cynllun Corfforaethol	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	2014 Dyddiad cwblhau diwygiedig 2015		Rydym wedi cynnal dadansoddiad data o'r Arolwg Staff 2012 sy'n dangos fod nifer y bobl sydd wedi dioddef o gamwahaniaethu wedi gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2008 o 76% i 92%, sy'n sefyllfa positif. Credwn fod hyn o ganlyniad i'r swm sylweddol o hyfforddiant Cydraddoldeb a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod hwn. Cynhaliwyd arolwg staff pellach yn 2015. Roedd canlyniadau data Cydraddoldeb ar Arolwg Staff 2015 ar gael ym mis Awst 2016 ac mae hyn yn ffurfio cam gweithredu ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd.
3.1.18	Adolygu'r Polisi Ymdeoli i ymgorffori ymdeoliad hyblyg	Adnoddau Dynol Corfforaethol		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2012		Mae'r polisi hwn wedi ei drafio yn barod ar gyfer ymgynghori. Fodd bynnag, mae canllawiau ar ymdeoliad hyblyg wedi eu cyhoeddi cyn yr adolygiad polisi.

Gweithredu	Cyfrifoldeb	Croes Gyfeirio	Hll	Anabledd	Rhyw	Ailbennu	Rhywedd	Tueddfryd	Rhywiol	Oedran	Crefydd/Cred	Priodas/	Partneriaeth Sifil	Beichiogrwydd/	Cyfnod	Manolaeth	Cwblhau erbyn	Cynnydd Coch-heb ei wneud Ambr-yn mynd rhagddo Gwyrdd-cwblhawyd / parhaus	Gweithredu a wnaed
3.1.19	Darparu hyfforddiant cydraddoldeb gorfodol i'r holl staff er mwyn sicrhau eu bod yn deall eu cyfrifoldebau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010	Pob Gwasanaeth		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓			Rhagfyr 2012		Rydym wedi darparu hyfforddiant ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i bron 923 o staff yn ystod y flwyddyn gyda dros 1800 o staff wedi'u hyfforddi ar y modiwl Cydraddoldeb newydd. Mae hyn wedi bod trwy gyfuniad o hyfforddiant ar-lein ar gyfrifiadur trwy e-ddysgu a hyfforddiant wyneb-yn-wyneb i staff rheng flaen nad oes ganddynt fynediad i gyfrifiadur. Mae gennym ddyddiadau gweithdai rheolaidd wedi'u trefnu trwy gydol y flwyddyn. Rydym yn darparu diweddiadau chwarterol i Benaethiaid Gwasanaethau ynghylch pwysedd wedi ymgymryd â'r hyfforddiant fel y gall gwasanaethau annog staff i ymgymryd â'r hyfforddiant gorfodol hwn. Yn ogystal â hyfforddiant Cydraddoldeb cyffredinol, rydym yn parhau i redeg Gweithdai Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer swyddogion yn rheolaidd ac yn ystod y flwyddyn rydym wedi hyfforddi 46 o staff. Mae'r hyfforddiant hwn wedi ei gynnwys ar y Cynllun Dysgu a Datblygu Corfforaethol.
3.1.20	Gweithio gyda sefydliadau sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru i ddatblygu dull cyffredin o hyfforddiant cydraddoldeb wedi'i dargedu i gyflawni effeithlonrwydd drwy rannu arfer da a swmpbrynu darpariaeth hyfforddiant	Partneriaeth Rhwydwaith Cydraddoldeb Gogledd Cymru		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓			2012 ac yn barhaus		Mae trafodaethau parhaus yn cael eu cynnal mewn perthynas â dulliau cyffredin o gyflwyno hyfforddiant cydraddoldeb pan fydd cyllidebau yn caniatáu. Yn y cyfamser, mae hyfforddiant cydraddoldeb yn CBS yn cael ei ddarparu drwy fodiwlau e-ddysgu, ynghyd â hyfforddiant wyneb yn wyneb ar gyfer staff rheng flaen ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyfforddiant ar wahân yn cael ei gyflwyno ar gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Rydym yn parhau i weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sydd hefyd yn ceisio datblygu ymagweddau cyffredin tuag at atebion Hyfforddiant Cydraddoldeb o fewn sector cyhoeddus Cymru.
3.2.1	Cynnal gwaith ymchwil pellach i mewn i'r bwch cyflog rhwng y rhywiau o ran swyddi Penaethiaid a Dirprwy Benaethiaid (11.63% a 5.19% yn y drefn honno). Ystyried a yw hyn yn cael ei briodoli i faint yr ysgol ac a yw taliadau dewisol yn cael effaith, a pharatoi cynllun gweithredu i leddfau unrhyw bryder. Ymchwilio ymhellach i'r bwch cyflog oedran o ran swyddi Penaethiaid ac Athrawon (9% a 12% o blaid 50+ o weithwyr)	Tim Adnoddau Dynol Addysg		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓			2014 Dyddiad cwblhau diwygiedig 2015		Mae Archwiliad Cyflog Cyfartal ar y gweill sy'n cynnwys adolygiad o Benaethiaid a Dirprwy Benaethiaid. Mae hyn wedi cadarnhau bod y bylchau cyflog yn gysylltiedig â maint yr ysgol, a fesurir yn ôl nifer y disgyblion. Mae Tâl Staff Ysgol yn cael ei reoleiddio'n agos gan amodau Soulbury ac felly yn amodol ar gytundebau cyflog a setliadau cenedlaethol y tu allan i reolaeth yr Awdurdod Lleol. Gan fod ysgolion yn cael eu rhanbartholi, ystyrir y dylai adolygiadau pellach yn y maes fod yn rhan o'r rhaglen ranbartholi.
3.2.2	Llunio cyfarwyddyd i reolwyr ar gytuno lefelau cyflog o fewn y raddfa wrth gynnig swydd i sicrhau bod cysonder, tegwch a thâl cyfartal yn cael eu cynnal ar gyflogau cychwynnol. Cynnwys cyfarwyddyd ar godiad cyflog dros dro a charlam o fewn y raddfa a roddir y tu allan i'r adolygiad blynyddol	Adnoddau Dynol Corfforaethol		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓			Gorffennaf 2012		Mae canllawiau a pholisi ar osod tâl ar gyfer dechreuwyr newydd wedi ei gynnwys yn y Polisi Recriwtio a Dewis newydd i sicrhau bod cyflog cyfartal a chysondeb yn cael ei gynnal.
3.2.3	Peilota'r ffurflen gais ddiwygiedig (gan gael gwared â manylion personol nes i'r ymgeiswyr gyrraedd y rhestr fer) yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Amgylchedd, lle mae gwahaniad galwedigaethol yn amlwg, â'r bwriad o gyflwyno'r dull newydd hwn ar draws yr Awdurdod	Adnoddau Dynol Corfforaethol		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓			Gorffennaf 2012		Mae'r ffurflen a'r broses wedi eu cytuno gyda'r Uwch Dîm Rheoli ac mae yn y broses o gael ei weithredu.
3.2.4	Cynnal adolygiad o drefniadau wrth law a galw allan i benderfynu beth yw effaith y bwch cyflog ar bob nodwedd warchoddedig	Adnoddau Dynol Corfforaethol		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓			Rhagfyr 2013- Dyddiad cwblhau diwygiedig Rhagfyr 2015		Mae adolygiad o'r trefniadau gweithio wrth gefn a galwadau wedi'i gynnal ac mae cynllun peilot wedi'i weithredu mewn rhan fawr o'r awdurdod lle mae trefniadau gweithio wrth gefn yn cael eu defnyddio fwyaf. Mae cyfradd sengl wedi'i chyflwyno i bob staff sy'n rhan o'r cynllun peilot. Mae ymgynghoriad yn parhau gyda gwasanaethau perthnasol er mwyn cael un polisi erbyn mis Rhagfyr 2017.

	Gweithredu	Cyfrifoldeb	Croes Gyfeirio	Hll	Anabledd	Rhyw	Ailbennu	Rhywedd	Tueddfryd	Rhywiol	Oedran	Crefydd/Cred	Priodas/	Partneriaeth Sifil	Beichiogrwydd/	Cyfnod	Manolaeth	Cwblhau erbyn	Cynnydd Coch-heb ei wneud Ambr-yn mynd rhagddo Gwyrdd-cwblhawyd / parhaus	Gweithredu a wnaed
				✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓				
3.2.5	Cymryd mesurau i wella data monitro cydraddoldeb cyflogeion o 45% i 80%, yn enwedig mewn perthynas â chrefydd a chred, cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd, na ofynnwyd amdanynt yn flaenorol, er mwyn darparu gwybodaeth well ar gyfer yr Archwiliad Cyflog Cyfartal yn 2013. Rhan o'r dasg hon fydd datblygu diwylliant sy'n gadarn o blaid monitro cyflogaeth	Adnoddau Dynol Corfforaethol	Adroddiadau Monitro Cyflogaeth	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2014		Rydym wedi newid y ffordd yr ydym yn mesur data Monitro Cydraddoldeb ac mae gennym 100% o ddata ar gyfer rhai categorïau ond nid ar gyfer pob un. Mae cyflwyno recriwtio dros y we yn 2016 wedi gwneud gwahaniaeth gan fod cwblhau'r meysydd hyn yn orfodol i ymgeiswyr. Rydym hefyd wedi cyflwyno hunanwasanaeth ar y system AD/Cyflogres, sy'n galluogi staff i ddiweddarau eu data personol eu hunain, a bydd hyn yn gymorth pellach i gasglu data. Mae gwybodaeth a gedwir ar gyfer pob categori wedi gwella. Bydd gweithgareddau yn parhau i wella data ac mae hyn yn cael ei gynnwys yn ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol newydd.
3.2.6	Llunio Canllaw (a Naratif) Cynnal a Chadw Cynllun Gwerthuso Swyddi i sicrhau cysonder o ran defnyddio'r broses Werthuso Swyddi dros gyfnod, i sicrhau bod tali cyfartal yn cael ei gynnal	Adnoddau Dynol Corfforaethol		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2012		Mae Proses Panel Apêl wedi'i weithredu sy'n nodi beth ddylai staff ei wneud os ydynt am apelio yn erbyn sgôr eu Gwerthusiad Swydd. Mae Proses Apelio Gwerthuso Swyddi ar gyfer swyddi a newidiwyd yn ystod ailstrwythuro hefyd wedi'i weithredu. Mae'r mesurau hyn yn cwblhau'r cam gweithredu, fodd bynnag oherwydd y newidiadau i'r cynllun Gwerthuso Swyddi GLPC mae gennym gam gweithredu pellach i weithredu Polisi Gwerthuso Swyddi yn 2017 a fydd yn ymgorffori pob mater sy'n ymwneud â Gwerthuso Swyddi yn ogystal â'r newidiadau i'r Cynllun GLPC.
3.2.7	Cynnal Archwiliad Cyflog Cyfartal pellach i ystyried unrhyw fwlch cyflog rhwng pobl â nodweddion gwarchoddedig gwahanol	Adnoddau Dynol Corfforaethol		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr-2013- Dyddiad cwblhau diwygiedig Rhagfyr 2015		Bu i ni gynnal archwiliad Cyflog Cyfartal fel rhan o'r gwaith ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 a chyhoeddir y manylion yn y cynllun.
3.2.8	Byddwn yn cynnal dadansoddiad pellach o'r rhesymau dros unrhyw fwlch cyflog a nodwyd ac yn ystyried pa gamau y gallwn eu cymryd i gael effaith gadarnhaol ar y sefyllfa i wella canlyniadau	Adnoddau Dynol Corfforaethol		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr-2013- Dyddiad cwblhau diwygiedig Rhagfyr 2015		Mae dadansoddiad manwl wedi'i wneud o'r rhesymau dros unrhyw fylchau a nodir ac mae camau gweithredu wedi'u nodi sy'n cael eu gweithio ar hyn o bryd. Mae camau gweithredu pellach wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd.



Gweithredu	Cyfrifoldeb	Croes Gyfeirio	Hil	Anabledd	Rhyw	Ailbennu	Rhywedd	Tuedd/ryd	Rhywiol	Oedran	Crefydd/Cred	Priodas/ Partneriaeth Sifil	Beichiogrwydd/ Cyfnod	Manolaeth	Cwblhau erbyn	Cynnydd Coch-heb ei wneud Ambr-yn mynd rhagddo Gwyrdd-cwblhawyd / parhaus	Gweithredu a wnaed
<b>Amcan 4: Lleihau anghydraddoldeb mewn Diogelwch personol</b>																	
4.1.1	Cynhyrchu cynllun cyfathrebu wrth gyhoeddi Polisi Aflonyddu diwygiedig, sy'n cynnwys materion moesegol ynghylch rhoi gwybod am achosion. Cynnwys gwybodaeth am fecanweithiau cymorth sydd ar gael, ble a sut i roi gwybod am ddiwyddiadau, hawliau unigolion, tystiolaeth ystadegol o'r materion allweddol, gan dynnu sylw at y cyfrifoldeb cymdeithasol fel cyflogai ac aelod o'r gymuned	Adnoddau Dynol Corfforaethol		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		Ebrill-2013- Dyddiad cwblhau diwygiedig 2015		Mae'r Polisi yn Erbyn Aflonyddwch yn y Gwaith diwygiedig wedi'i adolygu, ei weithredu a'i hysbysebu i bob aelod o staff ac aelodau'r cyngor drwy'r briff tîm, postmaster ac e-bost. Darparwyd hyfforddiant i staff ar Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb drwy Gymorth i Ddiodeffwr a oedd yn cefnogi'r polisi hwn.
4.1.2	Adnabod a lleihau'r rhwystrau i hysbysu ynghylch troseddau, e.e. sicrhau bod cyfieithwyr/dehonglwr ar gael (ieithoedd heblaw Saesneg a Chymraeg, neu iaith Arwyddion Prydain), darparu amgylchedd cyfrinachol i drafod y mater gyda swyddog a sicrhau bod swyddogion yn hyderus o ran y cyngor y maent yn ei roi	Pob gwasanaeth		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		Ar unwaith ac yn barhaus		Mae gwaith yn barhaus gyda NWREN (Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru) drwy'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Rydym yn ariannu gweithiwr Estyn Allan ar gyfer y NWREN sy'n darparu sesiynau gwybodaeth mewn llyfrgelloedd i annog pobl i roi gwybod am droseddau. Mae Conwy yn defnyddio gwasanaeth cyfieithu The Big Word yn ôl yr angen er mwyn galluogi'r cyhoedd i gael mynediad i ni a'n gwasanaethau a darparu amgylchedd cyfrinachol i drafod unrhyw faterion a gafwyd. Rydym hefyd wedi cynnwys dolen Cymru Ddiogelach ar ein gwefan i staff a'r cyhoedd gael mynediad iddi. Ar gyfer staff rydym hefyd yn darparu Rhaglen Cymorth i Weithwyr Care First ar gyfer cyngor, gwybodaeth neu gwnsela. Mae gan ysgolion gysylltiadau gyda Swyddogion Cymunedol. Mae Rhaglenni ABCh (Addysg Bersonol a Chymdeithasol) yn cysylltu â Swyddogion Cyswllt yr Heddlu Cyffuriau ac Alcohol, ac mae ysgolion hefyd yn ymwneud ag amryw o amlasiantaethau. Mae Venue Cymru yn gweithio'n agos gyda Heddlu Gogledd Cymru a Thryddedu i wneud Venue Cymru yn amgylchedd diogel yn ystod digwyddiadau. Ar gyfer gigs a digwyddiadau lle gall lefelau troseddau posibl gynyddu, mae ardal dawel ar gael i gwsmeriaid wneud eu hadroddiad, mae swyddog yr heddlu ar y safle ac mae staff diogelwch yn cael eu briffio'n llawn.
4.1.3	Darparu hyfforddiant ar gyfer staff allweddol mewn ymddrin ag achosion i ysgogi hyder mewn hysbysu a chyfrinachedd yn ogystal â gwybod sut i adnabod a herio ymddygiad a dangos y ffordd i staff a chwsmeriaid os ydynt yn dod yn ddiodeffwr	Y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar y cyd â Heddlu De Cymru / Digwyddiad hyfforddi	Un Conwy 2.5.1	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		2015		Mae'r Cyngor wedi lansio ei Bolisi Cam-drin Domestig. Mae Rhwydwaith Staff Cyswllt Cam-drin Domestig Conwy wedi cael ei sefydlu ar yr un pryd ac mae aelodau o'r grŵp wedi cael eu hyfforddi mewn ymddrin ag achosion a ble i gyfeirio staff, pan fo staff yn teimlo na allant siarad â'u rheolwyr.
4.1.4	Gweithio gyda grwpiau drama ysgolion lleol i gynhyrchu a pherfformio dramâu addysgiadol yn seiliedig ar droseddau rhyw, troseddau casineb, aflonyddu a cham-drin domestig, i godi ymwybyddiaeth ymhlith cyfoedion, gan sicrhau eu bod yn gwybod ble i fynd i gael help; ymddrin â gwarthod a manteision hysbysu ynghylch digwyddiadau	Y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar y cyd ag Addysg	Un Conwy 2.1.4	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓			2014/15		Mae taith Theatr Catspaw yn cael ei ariannu trwy Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn rhanbarthol ac yn cael ei oruchwylio gan y Prosiect Cynllun Atal Trais Rhywiol. Enw'r perfformiad yw 'I think I can wait' ac mae'n ymwneud â thrais rhywiol a chaniatâd ymhlith pobl ifanc. Mae'n berfformiad rhyngweithiol a gofynnir i'r bobl ifanc ymateb gan ddefnyddio 'cliciwr' ar gyfer o gwestiynau sy'n codi ar ôl iddynt wyllo'r perfformiad. Mae'r Theatr yn y broses o drefnu perfformiadau pellach mewn ysgolion ar gyfer 2015-16. Mae ffigurau, a gasglwyd ym mis Mawrth 2015, yn dangos bod 43 o ysgolion ar draws Gogledd Cymru wedi derbyn y perfformiad gyda 4161 o fyfyrwyr wedi mynychu perfformiad. O blith y rhai a fynychodd y perfformiad, roedd 85% yn meddwl bod y cyflwyniad naill ai'n 'dda iawn' neu'n 'ardderchog' a 88% yn dweud eu bod wedi dysgu naill ai 'eithaf tipyn' neu 'lawer' am y pwnc trwy gyflwyniad drama.
4.1.5	Cynyddu'r defnydd o arwyddion mewn manau troseddau amgylcheddol problemus, yn ogystal ag ardaloedd â rheolaeth ar alcohol, codi ymwybyddiaeth ac annog pobl i roi gwybod am droseddau casineb/ cam-drin domestig.	Partneriaeth Diogelwch Cymunedol	Un Conwy 2.3.4	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓			2014		Rydym yn darparu arwyddion trosedd yn unol â thelerau'r grant. Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi buddsoddi mewn arwyddion newydd ar gyfer y gatiâu llwybrau yng Nghyffordd Llandudno ac Abergele. Mae'r arwyddion newydd bellach yn cynnwys rhif ffôn swyddfa'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol er mwyn rhoi gwybod am unrhyw broblem gyda'r gatiâu. Mae'r arwyddion newydd bellach yn cynnwys rhif ffôn swyddfa'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol er mwyn i bobl roi gwybod am unrhyw fater. Mae'r holl arwyddion alcohol yn eu lle, gellir symud yr arwyddion tipio anghyfreithlon a'u gosod mewn manau eraill. Mae Arwyddion Rheoli Cŵn newydd hefyd wedi eu gosod ar draws y sir.

	Gweithredu	Cyfrifoldeb	Croes Gyfeirio	Hil	Anabledd	Rhyw	Ailbennu	Rhywedd	Tuedd/ryd	Rhywiol	Oedran	Crefydd/Cred	Prifodas/	Partneriaeth Sifil	Beichiogrwydd/	Cyfnod	Manolaeth	Cwblhau erbyn	Cynnydd Coch-heb ei wneud Ambr-yn mynd rhagddo Gwyrdd-cwblhawyd / parhaus	Gweithredu a wnaed
				✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓			
4.1.6	Cyflwyno sesiynau i bob disgybl ar effaith ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau (gan gynnwys troseddau casineb, trais domestig a cham-drin) fel rhan o'r rhaglen graidd	Heddlu Gogledd Cymru (ar y cyd ag Addysg)	Un Conwy 2.3.8	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓						2014		Mae Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn ymweld yn rheolaidd ag ysgolion a cholegau i drafod ymddygiad gwrthgymdeithasol ac adrodd am unrhyw drosedd. Mae gwaith yn cael ei wneud gan y Cydlynnydd Cam-drin Domestig gydag ysgolion i annog pobl i roi gwybod am droseddau rhyw ac i gael gwared ar unrhyw stigma. Mae drama wedi ei datblygu sy'n tynnu sylw at drais rhywiol ymysg pobl ifanc.
4.1.7	Adolygu mecanweithiau rhoi gwybod am droseddau casineb gyda phartneriaid, gyda'r bwriad o gynyddu nifer y lleoedd lle gellir rhoi gwybod am droseddau. Ystyried rhyddineb rhoi gwybod am droseddau ac a oes modd casglu data anffurfiol ar hynny	Partneriaeth Diogelwch Cymunedol / Heddlu Gogledd Cymru / Partneriaid Cydraddoldeb Gogledd Cymru		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓						Rhagfyr 2013		Rydym wedi diweddaru ein dulliau cyfeirio ar gyfer staff a'r cyhoedd at wefan Cymorth i Ddiodeffwyr. Mae gwaith ar y gweill gyda Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWREN) drwy'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Rydym yn parhau i ariannu gweithiwr allgymorth drwy NWREN i ddarparu sesiynau gwybodaeth mewn llyfrgelloedd i annog pobl i adrodd am droseddau casineb. Mae gwaith yn parhau drwy'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru o ran cytuno ar gamau gweithredu pellach mewn perthynas ag atal, cefnogi diodeffwyr a gwella ymateb aml-asiantaeth. Mae hyn wedi cynnwys cefnogi Wythnos Troseddau Casineb ym mis Hydref 2014 drwy gyhoeddi gwybodaeth allweddol ar ein gwefannau, gosod hysbysfyrddau a thafenni yn ein prif adeiladau a sylw yn y cyfryngau.
4.1.8	Adolygu ein cymorth i bobl ag anableddau dysgu ac afiechyd meddwl mewn perthynas â throseddau, gan gydnabod yr effaith negyddol y maent yn ei chael ar y grwpiau agored i niwed yma	Heddlu Gogledd Cymru ar y cyd â Gwasanaethau Oedolion (nid addysg)	Un Conwy 2.1.5	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓						2013		Mae Heddlu Gogledd Cymru yn defnyddio Pocket Comms, offeryn cyfathrebu darluniadol, i gefnogi cyfathrebu. Mae gan yr Heddlu Grŵp Cymorth Anabledd lle gall unigolion herio'r Heddlu ar broses a strategaeth. Maent hefyd yn gweithio ar argymhellion Ymchwiliad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i Afonyddu ar sail Anabledd, gan gynnwys gwaith ar droseddau casineb, Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chefnogaeth i ddiodeffwyr diameddifyn. Mae gan ddau Swyddog Amrywiaeth Gogledd Cymru gyloch gwaith o ymgylltu â'r gymuned, monitro tensiwn a chefnogi rheoli troseddau casineb. Mae Ditectif Gwnstabl Diogelu Oedolion Diamddiffyn sy'n ymdrin yn benodol â throseddau yn erbyn oedolion diameddifyn lle mae'r sawl a ddrwgdybir yn weithiwr proffesiynol/gofalwr. Conwy: Nod gwreiddiol prosiect Lleihau Stigma oedd lleihau effaith troseddau ar bobl ag Anableddau Dysgu. Ystyriodd CPOVA yr Adolygiad Achos Difrifol: Winterbourne View, yn ymwneud â cham-drin defnyddwyr gwasanaeth gan staff. Ymatebodd Conwy i Anabledd Dysgu Cymru fel rhan o'u gwaith gyda'r All Wales Challenging Behaviour Community of Practice a Llywodraeth Cymru i wneud argymhellion i sicrhau 'Dim Winterbourne yng Nghymru'.
4.1.9	Hyrwyddo'r defnydd diogel o TG a'r rhyngwyd	Heddlu Gogledd Cymru (ar y cyd ag Addysg)	Un Conwy 2.1.6	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓						2014		Trefnodd y Gwasanaeth Seicoleg Addysg a'r Cydlynnydd Ysgolion lach gynhadledd i ysgolion cynradd ac uwchradd i godi ymwybyddiaeth o seiber-fwllo a rhywdeithio cymdeithasol ac i tansio'r polisi gwrth-fwllo newydd ar gyfer ysgolion. Rydym yn cymryd rhan yn yr holl ymgyrchoedd cenedlaethol i annog y defnydd diogel o'r rhyngwyd ac i annog rhieni i ganfod beth y mae eu plant yn ei wneud ar y cyfrifiaduwr.
4.1.10	Ymestyn rôl teledu cylch caeedig i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad arall sy'n cael effaith niweidiol ar yr anglychedd, gan sicrhau bod swyddogion yn cael eu hyfforddi'n briodol i adnabod troseddau casineb a cham-drin domestig a chymryd lefel briodol o ymyrraeth	Gwasanaethau Rheoleiddio	Un Conwy 2.3.6	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓						2014		Defnyddir teledu cylch caeedig i fonitro aflonyddwch cyhoeddus. Mae swyddogion teledu cylch caeedig a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi cymryd cyfrifoldeb dros hyn, gan ei fod yn golygu symud camerau a reolir gan Diogelwch Cymunedol yn gyflym. O ran troseddau casineb a thrais domestig, mae hyn yn rhywbeth y byddai gweithredwyr yn rhoi gwybod amdano fel rhan o'u rôl ac mae'n rhan o'u hyfforddiant safonol. Gan fod y rhan fwyaf o drais domestig yn digwydd dan do, mae hyn yn llai tebygol o gael ei godi gan deledu cylch caeedig.
4.1.11	Byddwn yn cael gwared ar graffiti os cafodd ei gymell gan "gasineb", o fewn 24 awr i hysbysu yn ei gyloch	Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓						Ar unwaith ac yn barhaus		Yn 2012/13, cafodd yr holl graffiti a adroddwyd i ni ei symud o fewn yr amserlen darged.
4.1.12	Byddwn yn cyllido gwaith allgymorth gyda Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWREN) i helpu i gynyddu'r arfer o hysbysu ynghylch troseddau casineb	Partneriaeth Diogelwch Cymunedol		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓						Ar unwaith ac yn barhaus		Mae gwaith yn barhaus gyda Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru i helpu i gynyddu adrodd am droseddau casineb. Mae'r gwaith estyn allan hwn yn parhau ac rydym wedi sicrhau cyllid eleni (2013/14) i barhau â'r gwaith hwn.

Gweithredu	Cyfrifoldeb	Croes Gyfeirio	Hil	Anabledd	Rhyw	Ailbennu Rhywedd	Tueddifyd Rhywiol	Oedran	Crefydd/Cred	Priodas/Partneriaeth Sifil	Baichogrwydd/ Cyfnod Manolaeth	Cwblhau erbyn	Cynnydd	Gweithredu a wnaed
													Coch-heb ei wneud Ambr-yn mynd rhagddo Gwyrdd-cwblhawyd / parhaus	
4.2.1	Cyflwyno Polisi Trais Domestig ar gyfer staff a chodi ymwybyddiaeth o'r mecanweithiau cymorth sydd ar gael yn fewnol ac yn allanol. Hyrwyddo pwysigrwydd hysbysu ynghylch digwyddiadau a gwneud gwaith ar ddadwarthnodi	Adnoddau Dynol Corfforaethol				✓	✓	✓				Awst 2012		Cafodd Polisi Trais Domestig ar gyfer staff ei gyflwyno eleni. Mae hyfforddiant wedi bod yn mynd rhagddo ar gyfer staff sy'n cael eu hadnabod fel Swyddogion Cyswllt ar draws Cyngor Conwy ac mae lansiad ffurfiol y polisi gyda gweithdai a hyfforddiant pellach yn cael ei gynllunio ar gyfer yr hydref.
4.2.2	Byddwn yn hyrwyddo'r llinell gymorth cam-drin domestig ar ddeunyddiau hyrwyddo, ac yn ymdrechu i gynyddu nifer yr achosion yr ymdrinnir â hwy gan Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol trwy hyrwyddo'r gwasanaeth	Partneriaeth Diogelwch Cymunedol				✓	✓	✓				Ar unwaith ac yn barhaus		Mae gwaith yn cael ei wneud gan y Cydlynnydd Cam-drin Domestig gydag ysgolion i annog adrodd a chael gwared ar y stigma o adrodd am droseddau rhywiol. Mae drama wedi ei ddatblygu sy'n tynnu sylw at materion trais rhywiol ymhlith pobl ifanc.
4.2.3	Defnyddio digwyddiadau hyrwyddo i godi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig, e.e. taith flynyddol cam-drin domestig, diwrnod cenedlaethol cam-drin domestig (25 Tachwedd)	Partneriaeth Diogelwch Cymunedol				✓	✓	✓				Ar unwaith ac yn barhaus		Cynhaliwyd rali Cam-drin Domestig ym mis Gorffennaf 2012 i hyrwyddo ymwybyddiaeth o Gam-drin Domestig.
4.2.4	Parhau i redeg a chefnogi'r Cynllun Cartrefi Diogelach sydd wedi'i fwradiu i wneud i ddiodefwyr cam-drin domestig deimlo'n fwy diogel trwy ddarparu a gosod mesurau gwella diogelwch (cloeon ac ati)	Partneriaeth Diogelwch Cymunedol				✓	✓	✓				Ar unwaith ac yn barhaus		Mae'r Cynllun Cartrefi Diogelach ar gyfer diodefwyr Cam-drin Domestig yn dal i fod ar waith. Rydym wedi llwyddo i sicrhau 2 flynedd o gyllid ar gyfer y prosiect ac mae gwirfoddolwyr yn darparu'r gwasanaeth.
4.2.5	Rhedeg a chefnogi fforwm amlasiantaeth lleol ar gam-drin domestig a darparu gwasanaethau cam-drin domestig ar gyfer dynion trwy fforymau, hyfforddiant a digwyddiadau	Partneriaeth Diogelwch Cymunedol				✓	✓	✓				Parhaus		Mae'r Cydlynnydd Cam-drin Domestig yn parhau i gydlynu'r Fforwm Cam-drin Domestig amlasiantaeth lleol sy'n cyfarfod yn chwarterol ac mae digwyddiadau hyfforddi yn cael eu trefnu o amgylch cam-drin domestig. Ar hyn o bryd mae'r Fforwm yn gweithio ar y prosiect 10,000 o Fwyddau Diogelach sef set o safonau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pob gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r fforwm wedi cynorthwyo yn ddiweddar gydag argymhellion polisi seiliedig ar waith sy'n cael eu rhoi ar waith ym mhob un o'r sefydliadau partner yn y sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru.
4.2.6	Diogelu pobl ddiameddiffern, gan gynnwys pobl hŷn, pobl ag anghenion iechyd meddwl sydd wedi eu cam-drin neu mewn perygl o gael eu cam-drin	Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion	Un Conwy 2.6.6			✓	✓	✓	✓			2014-Dyddiad cwblhau diwygiedig 2015		Mae Uned Ddiogelu wedi'i sefydlu yn y maes Gwasanaeth Safonau Ansawdd yn y strwythur Gofal Cymdeithasol newydd i ddiogelu pobl ddiameddiffern gan gynnwys pobl hŷn a phobl ag anghenion iechyd meddwl sydd wedi cael eu cam-drin neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin. Mae polisi 'Oedolion mewn Perygl' hefyd wedi'i ddrafftio ac mae'n tanatgu'r ddyletswydd newydd i adrodd o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014.
4.2.7	Darparu cefnogaeth i deuluoedd lle mae pobl ifanc yn wynebu risg uchel o niwed yn sgil camddeffnyddio sylweddau a/neu alcohol trwy'r "Rhaglen Cryfhau Teuluoedd".	Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc	Un Conwy 2.4.4 Nod Craidd 3 a 6 PPPI			✓	✓	✓	✓			2014		Mae'r tîm Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd yn weithredol ac yn cynnal ymyriadau. Rydym wedi recriwtio Gweithiwr Cymdeithasol i Oedolion ac Ymgynghorydd Iechyd Pobl Ifanc i ymuno â'r tîm ym mis Ebrill. Nod y Tîm o Amgylch y Teulu yw gwella argaeledd gwybodaeth am wasanaethau, rhoi cymorth i deuluoedd i gael mynediad at wasanaethau a gwella gweithio amlasiantaeth. Mae'r tîm yn gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i sicrhau bod gwybodaeth symlach a gwasanaeth cymorth yn cael eu darparu. Rhwng mis Hydref 2013 a mis Mawrth 2014 derbyniwyd 176 o atgyfeiriadau. Mae perthynas waith dda wedi ei datblygu o fewn CAMHS, Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd, Cymunedau yn Gyntaf a'r sector gwirfoddol er mwyn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn y gefnogaeth orau.
														Mae presenoldeb mewn cyfarfodydd amlasiantaeth wedi bod yn cynyddu'n raddol wrth i berthnasau ddatblygu. Mae galwadau tri a chwe mis dilynol i gefnogi teuluoedd y mae eu hachosion wedi cau yn dangos bod yr ymyrraeth wedi eu helpu ac wedi eu hatal rhag argyfwng. Mae'r adborth wedi bod yn ardderchog ac mae teuluoedd yn awr yn ail-atgyfeirio eu hunain yn ôl yr angen. Mae'r tîm hefyd yn darparu cymorth i bobl sy'n cael eu atgyfeirio at y Gwasanaethau Cymdeithasol, ond nad ydynt yn gymwys i gael cymorth. Yn ystod y cyfnod hwn cefnogwyd 54 o bobl yn y ffordd hon.
4.2.8	Darparu ymateb cydlynol i gefnogi diodefwyr trais domestig risg uchel / uchel iawn	Partneriaeth Diogelwch Cymunedol	Un Conwy 2.5.3			✓	✓	✓	✓			2014		Mae'r gynhadledd Asesu Risg Aml-Asiantaeth ar gyfer Trais Domestig Lefel Uchel yn cael ei gynnal bob mis ac yn gyfarfod amlasiantaethol. Mae'r prosiect 10,000 o Fwyddau Diogelach yn mynd rhagddo ar draws gogledd Cymru, a bydd yr amcan o weithredu pob un o'r argymhellion yn sicrhau ymateb cyson i drais domestig ar draws gogledd Cymru.

	Gweithredu	Cyfrifoldeb	Croes Gyfeirio	Hil	Anabledd	Rhyw	Ailbennu Rhywedd	Tueddfryd Rhywiol	Oedran	Creffyd/Cred	Priodas/ Partneriaeth Sifil	Beichiogrwydd/ Cyfnod Manolaeth	Cwblhau erbyn	Cynnydd Coch-heb ei wneud Ambr-yn mynd rhagddo Gwyrdd-cwblhawyd / parhaus	Gweithredu a wnaed
4.2.9	Cynyddu cyfraddau rhoi gwybod am gam-drin domestig ac adolygu mecanweithiau rhoi gwybod ar draws gogledd Cymru, gyda'r bwriad o gynyddu nifer y lleoedd y gellir rhoi gwybod am faterion o'r fath.	Partneriaeth Diogelwch Cymunedol / Heddlu Gogledd Cymru / Partneriaid Cydraddoldeb Gogledd Cymru	Un Conwy 2.5.2			✓	✓	✓	✓				2014		Mae Partneriaeth Conwy Diogelach yn parhau i ddarparu rhaglen hyfforddi i staff allweddol sy'n delio ag achosion ac mae'r cynllun cartrefi diogelach yn rhoi sicrwydd i ddiodefwyr risg uchel. Mae'r bartneriaeth hefyd yn gweithio gyda Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru i hyrwyddo rhoi gwybod am droseddau casineb. Mae gennym hefyd Gydlynnydd Cydlynnydd Rhanbarthol sy'n datblygu hyfforddiant Troseddau Casineb a Masnachu mewn Pobl. Mae dolen hefyd wedi ei hychwanegu at wefan y Cyngor i gyfeirio swyddogion / aelodau o'r cyhoedd at gefnogaeth trydydd parti Cymru Ddiogelach, sy'n cael ei ddisodli gan y trefniadau Cymorth i Ddiodefwyr newydd. Mae'r Cydlynnydd Cam-drin Domestig yn parhau i gyflynu a chyflwyno hyfforddiant ar drin achosion, gan gyfeirio staff a chwsmeriaid os ydynt yn dioddef. Mae'r Cydlynnydd Cam-drin Domestig yn gweithio gydag ysgolion i annog adrodd a chael gwared ar y stigma o roi gwybod am droseddau rhyw. Mae drama wedi ei datblygu sy'n tynnu sylw at drais rhywiol ymysg pobl ifanc.
4.2.10	Adolygu'r strategaeth i roi cymorth i blant a theuluoedd sy'n profi trais dimestig yn y cartref sy'n cynnwys cynnal Aseiad Risg i ystyried a yw er lles pawb bod y cyflawnwr yn cael ei symud o'r cartref - i ganolbwyntio ar lais y plentyn/plant a datblygu cysylltiadau â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol	Gwasanaethau Plant a Theuluoedd gyda Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol				✓	✓	✓	✓				Parhaus yn amodol ar gyllid		Mae'r Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yn parhau i gefnogi'r gwasanaeth triniaeth Cam-drin Domestig yng Nghonwy ar gyfer cefnogi plant a theuluoedd pan fo trais domestig yn y cartref. Rydym wedi defnyddio nifer o safonau craidd sydd wedi eu cynnwys yn y Cytundebau Lefel Gwasanaeth â'r darparwyr i sicrhau gysondeb. Gwneir hyn drwy'r broses Cynhadledd Aseu Risg Amlasiantaeth.
4.2.11	Cefnogi pobl i yfed yn synhwyrol, h.y. triniaeth, ymagwedd ysgol gyfan, ymgyrchoedd	Tim Camddefnyddio Sylweddau Iechyd Cyhoeddus Cymru	Un Conwy 4.2.2	✓	✓	✓	✓	✓	✓			✓	2014-Dyddiad cwblhau diwygiedig 2015		Mae gwasanaeth cefnogaeth integredig wedi'i sefydlu ar gyfer oedolion a phlant yn y strwythur Gwasanaethau Cymdeithasol newydd i gynorthwyo pobl i yfed yn gall. Mae'r Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd yn rhan o'r Gwasanaeth Cymuned a Lles ac yn canolbwyntio ar broblemau cyffuriau ac alcohol.

Gweithredu	Cyfrifoldeb	Croes Gyfeirio	Hil	Anabledd	Rhyw	Ailbennu	Rhywedd	Tuedd/ryd	Rhywiol	Oedran	Crefydd/Cred	Priodas/Partneriaeth Sifil	Beichiogrwydd/Cyfnod	Manolrwydd	Cwblhau erbyn	Cynnydd Coch-heb ei wneud Ambr-yn mynd rhagddo Gwyrdd-cwblhawyd / parhaus	Gweithredu a wnaed
<b>Amcan 5: Lleihau anghydraddoldeb mewn Cynrychiolaeth a Llais</b>																	
5.1.1	Byddwn yn mynd ati mewn ffordd weithredol i recriwtio aelodau o Rwydwaith Rhieni Conwy o ardaloedd targed sydd wedyn yn cael y cyfle i ddylanwadu ar y modd y cyflenwi'r gwasanaethau (gan sicrhau bod y grŵp yn rhoi cynrychiolaeth i wahanol grwpiau gwarchoddedig). Rhoi cyfleoedd i blant, pobl ifanc a rhieni gael rhan sylfaenol yn y broses wneud penderfyniadau lleol, h.y. y Cyngor leuenctid, Rhwydwaith Rhieni, ac ymgynghoriadau. Os yw'n bosibl, mae cynrychiolwyr o'r gwahanol grwpiau wedi'u diogelu.	Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc	Un Conwy 8.2.2	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	2013		Wrth helpu plant a phobl ifanc i gael rhan mewn cyrff gwneud penderfyniadau lleol, mae hyfforddiant wedi ei gwblhau gydag ysgolion Uwchradd ac yn cael ei gyflwyno i ysgolion Cynradd ar rôl Cynghorau leuenctid. Bydd monitro yn digwydd er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth disgyblion drwy gyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol.
5.1.2	Byddwn yn cynhyrchu llyfryn gwybodaeth a fydd yn egluro beth mae'n ei olygu i fod yn gynghorydd, gan gyfeirio unigolion at y camau y gallant eu cymryd i gyflawni hyn. Bydd y daflen hon wedi'i thargedu at grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd, e.e. menywod, Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol, pobl ifanc, pobl anabl a phobl o wahanol gefndiroedd o ran hil a diwylliant	Gwasanaethau Democrataidd		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		Cyn Etholiadau 2012 ac ar sail barhaus		Cynhyrchwyd llyfryn gwybodaeth cyn Etholiadau Mai 2012 a oedd yn amlinellu'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn Gynghorydd a'r dyletswyddau a chyfrifoldebau a oedd yn mynd gyda'r rôl. Roedd hyn yn cynnwys adran ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth.
5.1.3	Byddwn yn ysgrifennu at y gwahanol bleidiau gwleidyddol gan anfon copi o'n llyfryn Parch, i ofyn iddynt ystyried sut y gallant ddylanwadu ar amrywiaeth eu cronfa o ddarpar ymgeiswyr mewn etholiadau trwy dargedu gwahanol grwpiau "lleiafrifol" wrth roi cyhoeddusrwydd i, ac ysgogi cyfranogiad yn y broses wleidyddol gan bobl o bob nodwedd warchoddedig	Partneriaeth Rhwydwaith Cydraddoldeb Gogledd Cymru		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		Cyn Etholiadau 2012 ac ar sail barhaus		Cynhyrchodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru "Sut i Fod yn Rhan o Gorff Gwneud Penderfyniadau" ar y cyd o fewn sefydliadau sector cyhoeddus gogledd Cymru. Mae hwn ar gael yn ddwyieithog ar wefan pob sefydliad. Mae Conwy hefyd wedi cymryd rhan ragweithiol yn y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth i wella amrywiaeth Cynghorwyr mewn Llywodraeth Leol.
5.1.4	Byddwn yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb ar gyfer Aelodau o'r Cyngor pan eu bod yn cael eu penodi yn dilyn cael eu ethol ac i aelodau o Gynghorau Cymuned a Thref i gynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd sicrhau bod llais pob grŵp gwarchoddedig yn cael ei glywed trwy'r cyrff hyn	Gwasanaethau Democrataidd		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		Mehafin 2012 ac ar sail barhaus		Cafodd Aelodau'r Cyngor eu briffio ym mis Gorffennaf 2012, fel rhan o'u cyfnod Sefydlu Aelod Newydd, ar bwnc Cydraddoldeb, mewn cyflwyniad a roddwyd gan Anna Parsons (CLILC - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru). Hefyd gwnaeth y Tim Cydraddoldeb frifio Aelodau'r Cyngor yn y Cyngor Anffurfiol ar 11 Ionawr 2013 am sut y gall Aelodau gefnogi Cyngor Conwy i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â dyletswyddau deddfwriaethol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Statudol (Cymru) 2011. Roedd y cyflwyniad hwn hefyd yn cynnwys cyfrifoldebau Aelodau yn y broses o wneud penderfyniadau ac yn arbennig, sicrhau eu bod yn deall y broses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'u pwysigrwydd yn y broses o wneud penderfyniadau lle mae Aelodau'r Cyngor yn cymryd rhan ynddynt. Mae aelodau yn parhau i gael eu cynnwys mewn trafodaethau a phenderfyniadau yn ymwneud â'r agenda cydraddoldeb fel rhan o'r broses wleidyddol barhaus.

Gweithredu	Cyfrifoldeb	Croes Gyfeirio	Hill	Anabledd	Rhyw	Ailbennu Rhywedd	Tueddfryd Rhywiol	Oedran	Crefydd/Cred	Priodas/Partneriaeth Sifil	Beichiogrwydd/Cyfnod Manolaeth	Cwblhau erbyn	Cynnydd Coch-heb ei wneud Ambr-yn mynd rhagddo Gwyrdd-cwblhawyd / parhaus	Gweithredu a wnaed
5.1.5	Byddwn yn ystyried cyfethol pobl/grwpiau perthnasol sy'n cynrychioli pobl o wahanol grwpiau gwarchoddedig i gyrrff statudol wrth ystyried penderfyniadau polisi sy'n debygol o effeithio ar grwpiau penodol	Pob Gwasanaeth		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Ar unwaith ac yn barhaus		Rydym yn cyfethol pobl/grwpiau perthnasol ar amrywiol gyrrff statudol lle mae materion penodol yn cael eu hystyried, e.e., SNAP (Prosiect Ymgynghorol Anghenion Arbennig - cefnogi rhieni a theuluoedd plant ag anghenion arbennig), Polisi Derbyn, Fforwm Cyllideb, CYSAG (Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol). Rydym yn cynnal fforymau chwarterol gyda budd-ddeiliaid o wahanol grwpiau gwarchoddedig, e.e., Gwasanaethau Profedigaeth a Rhandiroedd. Mae enghreifftiau pellach yn cynnwys grŵp llywio Anhwylderau Sbectrwm Awstistig y mae defnyddwyr gwasanaeth yn ei fynychu ac yn dylanwadu ar y strategaeth gomisiynu, grŵp Strategaeth Pobl ar Goll lle mae cyn Blant sy'n Derbyn Gofal ar y bwrdd prosiect ac yn rhoi cipolwg ar pam y gall pobl ifanc ddianc o'r lleoliad. Rydym hefyd yn cyfethol arbenigwyr pan fyddwn yn trafod Cam-drin Domestig a chomisiynu gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau. Mae defnyddwyr gwasanaeth yn ein cynorthwyo gyda chynllunio gofal a llwybrau gwasanaeth. Yn lleidyddol, mae materion Cydraddoldeb yn cael eu prif ffrydio trwy'r Aelod Cabinet dros Gyfathrebu, y mae ei bortffolio yn cynnwys Cydraddoldeb a'r Cefnogwr Anabledd sy'n Aelod o'r Cyngor, Cefnogwr Gofalwyr a Cefnogwr Pobl Hŷn. Rydym wedi mabwysiadu Siarter Cymuned a Rennir yn ddiweddar gyda Chynghorau Tref a Chymuned a fydd yn rhoi llais cryfach o fewn cymunedau. Rydym yn ymgynghori gyda Grŵp Mynediad Lleol Conwy wrth ddatblygu prosiectau newydd a gwell sy'n cynnwys mynediad i'r amgylchedd adeiledig.
5.1.6	Cynnal adolygiad o orsafoedd pleidleisio, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â mynediad, bob 4 blynedd. Byddwn yn ystyried yr adroth a geir o brosesau ymgynghori fel rhan o'n adolygiad yn 2011 ac yn cymryd camau gweithredu i sicrhau bod gorsafodd pleidleisio'n parhau i fod yn gwbl hygyrch a ninnau wedi ystyried yr holl amgylchiadau	Gwasanaethau Democratiaidd		✓	✓	✓		✓	✓			Mai 2012		Cynhaliwyd adolygiad o Orsafoedd Pleidleisio a chyflwynwyd adroddiad cynhwysfawr i'r Cabinet ym mis Tachwedd 2011. O ganlyniad, penderfynwyd bod nifer o leoliadau yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr o orsafoedd pleidleisio gan eu bod yn cael eu hystyried yn anaddas ar gyfer mynediad, a dod o hyd i lleoliadau mwy addas.
5.1.7	Byddwn yn gwella'r modd y cesglir data monitro cydraddoldeb ar gyfer gwasanaethau er mwyn canfod a oes bylchau mewn cynrychiolaeth y gallwn wedyn geisio'u llenwi i sicrhau bod llais gan bob grŵp	Pob Gwasanaeth		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Ar unwaith ac yn barhaus		Mae hyn yn cael ei wella ar draws CBSC wrth i systemau a ffurflenni newydd gael eu cyflwyno. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys casglu data cydraddoldeb gan ddefnyddwyr ein Gwasanaethau Profedigaeth ac ynghyd â'r cynrychiolwyr ar y Fforwm Profedigaeth, mae'r wybodaeth hon yn llywio datblygiadau a gwelliannau i'r Gwasanaeth Profedigaeth. Mae ffurflen ymrodd hwyd yn cael ei chynnwys yn ein ffurflen gŵynion/canmoliaeth sy'n ein galluogi i ddadansoddi unrhyw dueddiadau sy'n achosi pryder. Rydym yn casglu gwybodaeth am gydraddoldeb gan y bobl sy'n mynychu amryw ddigwyddiadau cyhoeddus y byddwn yn eu trefnu trwy gydol y flwyddyn. Rydym hefyd yn gwella dulliau casglu data ar ein system Gwasanaethau Cymdeithasol PARIS sydd hefyd yn destun archwiliadau sicrhau ansawdd rheolaidd er mwyn sicrhau bod data yn cael ei gasglu. Mae'r gwaith hwn wedi ei gefnogi gyda chyflwyno'r Ffurflen Monitro Cydraddoldeb ac adnoddau Arweiniad a gynhyrchwyd ac a ddosbarthwyd i reolwyr i gynorthwyo â'r gwaith hwn. Mae'r wybodaeth hon hefyd ar ein mewnwrdd er mwyn i swyddogion gyfeirio ati. Mewn Addysg, yn ogystal â data am y gweithlu, mae system data'r Gwasanaeth Addysg yn casglu ac yn prosesu data am ddisgyblion er mwyn adrodd i Lywodraeth Cymru. Mae'r data hwn yn llywio amrywiol ffurflenni statudol, cynllunio busnes gwasanaeth a hefyd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.
5.1.8	Byddwn yn ymdrin â chwynion yn brydlon ac yn dysgu oddi wrthynt. Byddwn yn cynnig ffurflen casglu data monitro cydraddoldeb i gwsmeriaid sy'n cyflwyno cwyn ar-lein iddynt ei chwblhau ac yn dadansoddi'r data sy'n cael ei ddychwelyd er mwyn ystyried a oes unrhyw faterion sylfaenol y mae angen i ni roi sylw iddynt	Gwasanaethau Gwybodaeth a Chwsmeriaid Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		Ar unwaith ac yn barhaus		Mae ffurflenni cydraddoldeb yn cael eu darparu fel mater o drefn i bawb sydd wedi cyflwyno cwyn ar-lein sy'n ein galluogi i ddadansoddi data a chymryd camau priodol. Yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'r wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno yn yr adroddiad cwynion blynyddol.
5.1.9	Byddwn yn datblygu arweiniad arfer da ar gyfer cynnwys cymunedau gan ddefnyddio technoleg a byddwn yn cynnwys grwpiau perthnasol wrth wneud y gwaith hwn. Bydd y gwaith hwn yn cael ei rannu ar draws yr Awdurdod Lleol	Gwasanaethau Plant a Theuluoedd / Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion		✓	✓	✓	✓	✓	✓			Ar unwaith ac yn barhaus		Mae Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol wedi parhau i ddarparu cefnogaeth eiriolaeth i bobl ifanc anabl yn enwedig pobl ifanc sydd â darpariaeth seibiant byr yn Tir Na Nog. Mae pob asiantaeth partner wedi cofrestru ar gyfer Polisi a Gweithdrefnau Gogledd Cymru ar gyfer Diogelu Oedolion Diamddiffyn ac mae'r holl asiantaethau yn gweithio'n rhagweithiol gyda'i gilydd i nodi a mynd i'r afael â cham-drin i unrhyw breswlydd dros 18 oed o fewn Bwrdeistref Conwy. Rydym hefyd wedi creu ffurflen ymgynghori ar-lein ar gyfer CWD.

	Gweithredu	Cyfrifoldeb	Croes Gyfeirio	Hil	Anabledd	Rhyw	Ailbennu Rhywedd	Tueddifyd Rhywiol	Oedran	Crefydd/Cred	Priodas/ Partneriaeth Sifil	Beichiogrwydd/ Cyfnod Mamolaeth	Cwblhau erbyn	Cynnydd Coch-heb ei wneud Ambr-yn mynd rhagddo Gwyrdd-cwblhawyd / parhaus	Gweithredu a wnaed
				✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓			
5.2.1	Byddwn yn datblygu canllawiau arfer gorau ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned yn defnyddio technoleg a byddwn yn cynnwys grwpiau perthnasol wrth ymgymryd â'r gwaith hwn	Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc	Un Conwy 8.1.6	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		2014		Mae amrywiaeth o becynnau cymorth cyfranogi'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc ar gael ar wefan y bartneriaeth, gan gynnwys pecynnau ymgysylltu â'r gymuned Mae canllaw arfer gorau ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned wedi ei gynhyrchu gan bartneriaid cydraddoldeb gogledd Cymru er defnydd pob sefydliad partner.
5.2.2	Byddwn yn ymdrechu i ddatblygu grŵp budd-ddeiliaid yng ngogledd Cymru, sy'n cynrychioli pobl o grwpiau gwarchoddedig gwahanol, i hysbysu cynnydd o ran cydraddoldeb mewn sefydliadau sector cyhoeddus yng ngogledd Cymru	Partneriaeth Rhwydwaith Cydraddoldeb Gogledd Cymru		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓			Rhagfyr 2013		Sefydlwyd grŵp budd-ddeiliaid yn 2011 er mwyn ymgynghori ar amcanion cydraddoldeb y Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ar gyfer sefydliadau sector cyhoeddus gogledd Cymru. Cafodd y dull hwn dderbyniad da ar y pryd gan ei fod yn helpu i beidio ag ymgynghori gormod gyda'r un bobl. Cytunwyd felly i fabwysiadu'r dull hwn eto. Cynhaliwyd cyfarfod pellach o'r grŵp ym mis Tachwedd 2013. Yn y cyfarfod eglurwyd ein cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion hyn a chafwyd cyfle i roi sylwadau ac adborth. Mae adroddiad ar ganlyniadau'r digwyddiad hwn ar ein gwefan. Mae digwyddiad arall yn cael ei gynllunio ar gyfer 2015.
5.2.3	Datblygu ac ymestyn y defnydd o Gyngorau Ieuencid mewn ysgolion ledled Conwy i sicrhau bod gan ddisgyblion lais yn y broses ddemocrataidd leol. Annog disgyblion i fwydo'n ôl i ysgolion trwy wefannau mewnol yr ysgolion (e.e. Amgylcheddau Dysgu Rhithwir)	Addysg		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓			Ar unwaith ac yn barhaus		Rydym wedi hyfforddi aelodau cyngor yr ysgol i sicrhau eu bod yn gwybod sut i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd leol. Mae gan bob cyngor ysgol uwchradd gynrychiolydd ar y Cyngor Ieuencid ac mae'n cysylltu â phrosesau democrataidd lleol. Mae ysgolion bellach yn gyfrifol am sicrhau bod cynghorau ysgol yn effeithiol.

Gweithredu	Cyfrifoldeb	Croes Gyfeirio	Hil	Anabledd	Rhyw	Ailbennu	Rhywedd	Tueddfryd	Rhywiol	Oedran	Crefydd/Cred	Priodas/ Partneriaeth Sifil	Baichogrwydd/ Cyfnod	Manolaeth	Cwblhau erbyn	Cynnydd Coch-heb ei wneud Ambr-yn mynd rhagddo Gwyrdd-cwblhawyd / parhaus	Gweithredu a wnaed
<b>Amcan 6: Lleihau anghydraddoldeb mewn Mynediad i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd</b>																	
6.1.1	Bydd gwlybodaeth a ddarperir yn syml, yn briodol ac yn ddealladwy ar gyfer gwahanol grwpiau	Pob Partner y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc	Un Conwy 8.3.1	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓				2014		Rydym wedi ymchwilio ac wedi nodi arfer da o ran gwefannau gwlybodaeth ieuencid. Sefydlwyd grŵp tasg a gorffen i gwblhau'r gwaith hwn gydag aelodaeth aml-asiantaeth. Adolygwyd a gwerthuswyd strwythur ac addaswydd Conwy Ifanc a Facebook a Twitter y Gwasanaeth Ieuencid. Sefydlwyd grŵp tasg a gorffen yn 2013 i gwblhau'r gwaith hwn gydag aelodaeth aml-asiantaeth. Darparodd Swyddog Cyfranog'i'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc adborth i'r CAG4i ym mis Chwefror 2014, a gwnaethpwyd argymhellion i'r CAG4i a Chlic ac mae'r gwaith hwn wedi ei gwblhau ac yn parhau. Mae canllaw arfer da i ddatblygu tafenni ar gael ar wefan y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc <a href="http://www.conwy.gov.uk/pppi/adnodau">www.conwy.gov.uk/pppi/adnodau</a> .
6.1.2	Cynhyrchu Gwasanaeth Cyfeirio, gan amlinellu'r gwasanaethau allweddol sydd ar gael, er mwyn galluogi staff rheng flaen sy'n gweithio yn y gymuned gyfeirio aelodau o'r cyhoedd at y gwasanaethau.	Gwasanaethau Cymdeithasol		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓				Mawrth 2015		O fewn y Gwasanaethau Oedolion a Chymunedau Integredig, mae Tîm Mynediad Conwy a Phwynt Mynediad Sengl wedi'u sefydlu sy'n wasanaeth cyfeirio Defnyddwyr Gwasanaethau Oedolion. Edrychir ar fodel tebyg yn y Gwasanaethau Plant, Teuluoedd a Diogelu i fod yn Un Pwynt Mynediad i'r Gwasanaethau Plant.
6.1.3	Byddwn yn sefydlu gweithgor i adolygu ein Canllaw Arddull Corfforaethol i sicrhau bod canllawiau yn hygyrch, cyson ac yn cadw at bolisiau cydraddoldeb.	Yr Adran Farchnata		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓				Gorffennaf-2013-Dyddiad cwblhau diwygiedig 2015		Mae Canllaw Arddull eisoes mewn lle gan yr Awdurdod i gymryd hygyrchedd, cysondeb a chydraddoldeb i ystyriaeth. Cynhaliwyd adolygiad diweddar sy'faenol o'r cynnwys ym mis Medi 2016. Bydd adolygiad llawn o'r Canllaw Arddull yn cael ei gwblhau erbyn mis Hydref 2017, i adlewyrchu'r Cynllun Corfforaethol newydd a'r Strategaeth Gyfathrebu newydd.
6.1.4	Byddwn yn adolygu ein cynllun cyfathrebu i ystyried dulliau eraill o gyfathrebu (yn ychwanegol at y rhyngwyd), gan ystyried anghenion penodol pobl hŷn a phobl anabl, yn ogystal â'r rheiny sy'n byw mewn ardaloedd gwledig sy'n dal i fyw mewn mannau band eang "digyswllt". Mae'n rhaid i unrhyw ddewis arall barhau i fod yn fforddiadwy.	Yr Adran Farchnata Pob Gwasanaeth		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓				Gorffennaf-2013-Dyddiad cwblhau diwygiedig 2015		Cyflwynwyd Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol yn 2013 (2013-2017). Mae gweithgor yn adolygu Cyfathrebu Corfforaethol ar hyn o bryd a bydd y Tîm Cydraddoldeb yn bywdo i mewn i'r grŵp hwn i sicrhau fod hygyrchedd yn cael ei ystyried yn y strategaeth newydd.
6.1.5	Byddwn yn adolygu ein cynllun cyfathrebu i ystyried y posibilrwydd o ddulliau cyfathrebu eraill (yn ychwanegol at y Rhyngwyd) er mwyn ystyried anghenion penodol pobl hŷn a rhai pobl anabl, yn ogystal â'r rheiny sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ac sy'n dal yn byw mewn ardaloedd heb fand eang. Mae'n rhaid i unrhyw ddewisiadau eraill ddal i fod yn fforddiadwy.	Partneriaid Rhwydwaith Cydraddoldeb Gogledd Cymru / Cefnogwyr Cydraddoldeb Gwasanaeth	Un Conwy 8.2.5	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		2013		Rydym wedi datblygu Ffurflen Monitro Cydraddoldeb safonol sy'n cynnwys yr holl nodweddion a ddiogelir ac mae hyn yn cael ei gefnogi gan ddogfen Gyfarwyddyd yn egluro pam yr ydym yn casglu gwlybodaeth monitro cydraddoldeb a beth rydym yn ei defnyddio ar ei gyfer. Mae'r ddogfen hon wedi ei rhannu gyda'n partneriaid cydraddoldeb Gogledd Cymru, er oherwydd ein bod i gyd ar wahanol gyfnodau ac yn defnyddio gwahanol waith papur, ni fydd unfurfaeth yn gwbl bosibl. Fodd bynnag, rydym wedi trafod geiriad cwestiynau ac wedi cytuno ar dull unfurf pan fyddwn yn cynnal digwyddiadau ar y cyd fel rhan o'n rhwydwaith.



	Gweithredu	Cyfrifoldeb	Croes Gyfeirio	Hil	Anabledd	Rhyw	Ailbennu Rhywedd	Tueddfryd Rhywiol	Oedran	Crefydd/Cred	Priodas/ Partneriaeth Sifil	Beichiogrwydd/ Cyfnod Manolaeth	Cwblhau erbyn	Cynnydd Coch-heb ei wneud Ambr-yn mynd rhagddo Gwyrdd-cwblhawyd / parhaus	Gweithredu a wnaed
				✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓			
6.1.6	Byddwn yn hyrwyddo'r defnydd o Gronfa Ddata Ymgysylltu â'r Gymuned gyda phartneriaid a'r gymuned ac yn hyfforddi ein staff ym maes ymgysylltu â'r gymuned.	Bwrdd Gwasanaethau Lleol (a CBSC)	Un Conwy 8.1.3	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	2014		Mae Cronfa Ddata Ymgysylltu â'r Gymuned wedi ei hadnewyddu ac mae hyn wedi ei hyrwyddo ers cymeradwyo'r Strategaeth a'r Canllaw Staff ym mis Mawrth 2014. Mae Swyddogion Cyswilt yn y prif feysydd gwasanaeth yn cael eu hyfforddi i hyrwyddo a phoblogi'r Gronfa Ddata. Mae partneriaid wedi cael gwybod am y Gronfa Ddata ac wedi eu gwahodd i'w defnyddio ar gyfer hyrwyddo eu gweithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori eu hunain. Mae dwy sesiwn hyfforddi wedi eu trefnu ar gyfer staff fel rhan o'r Cynllun Hyfforddi Corfforaethol ar gyfer y flwyddyn hon ac mae hyn hefyd wedi ei hyrwyddo drwy'r Fforwm Rheolwyr a'r Fforwm Rheoli Rhaglenni Prosiectau.
6.1.7	Hybu'r defnydd o gyfleuster cyfieithu BIG WORD, adolygu'r defnydd cyfredol a rhannu adroddiad gyda Phenaethiaid Gwasanaethau	Yr Uned Iaith		✓						✓			Ar sail barhaus		Mae hyrwyddo The BIG WORD yn cael ei wneud ar sail barhaus drwy roi gwybod ei fod ar gael ynghyd â chanllawiau ar fewnwyd y Cyngor. Mae adroddiadau ar ddefnydd yn cael eu derbyn o bryd i'w glydd gan The BIG WORD sy'n ein galluogi i fesur defnydd ar draws y Cyngor.
6.1.8	Byddwn yn ystyried sut y gallwn ddileu'r rhwystrau i bobl fyddar ddefnyddio iaith Arwyddion Prydain wrth fynd at ddesgiau yn nerbynfeydd ein hadeiladau cyhoeddus, dyfeisiau intercom wrth fynedfeydd ac wrth geisio mynediad at ein gwasanaethau. Byddwn yn gwneud argymhellion ar gyfer datrysiaidau posib.	Gwasanaethau Cwsmer a Gwybodaeth Corfforaethol			✓								Ar sail barhaus		Mae'r holl staff parhaol sy'n gweithio ar ddesgiau Derbynfya wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Arwyddion Prydain. Maent yn cadw rhestr o swyddogion sy'n defnyddio iaith Arwyddion Prydain sy'n gallu cynnig cyfleuster cyfieithu os bydd person yn ymweld â'n prif ardaloedd Derbynfya. Ar gyfer rhyngweithio mwy manwl, rydym yn ceisio gwneud apwyntiad gyda chyfieithydd iaith Arwyddion Prydain. Trwy fynychu hyfforddiant cydraddoldeb, rydym yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o bwysigrwydd gwerthfawrogi a pharchu eraill.
6.1.9	Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd fel bod pawb yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu, dim ots am anabledd, oed, ail aliniad rhyw, hil, crefydd neu gred, rhyw, tueddfryd rhywiol, priodas/ partneriaeth sifil a beichiogrwydd / mamolaeth	Pob gwasanaeth	Un Conwy 8.4.2	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Ar sail barhaus		Rydym yn parhau i ddiweddarau a gweithredu polisïau ac arferion i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf. Mae'r broses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei defnyddio i nodi ac ystyried unrhyw faterion cydraddoldeb neu hawliau dynol er mwyn osgoi unrhyw effaith andwyol neu nodi ffyrdd eraill o weithredu'r un newid. Rydym yn parhau i ddarparu hyfforddiant cydraddoldeb i gael effaith gadarnhaol ar ddiwylliant ein sefydliad ac i sicrhau bod staff yn ymwybodol o bwysigrwydd gwerthfawrogi a pharchu eraill. Yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, mae hwn yn werth gwaith cymdeithasol craidd ac felly wedi'i wreiddio yn y gwaith a wnaed gyda gwasanaethau plant a theuluoedd. Lle rydym wedi nodi bylchau, rydym yn ymgymryd â hyfforddiant arbenigol, e.e., ceisiadau Maethu gan gyplau o'r un rhyw. Rydym hefyd yn ymgymryd â gwaith ar ymgysylltu Tadau mewn gwaith amddiffyn plant. Mae pobl ddi-amddiffyn yn cael eu nodi trwy nifer o grwpiau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ac fel y cyfryw, yn derbyn cefnogaeth a gwybodaeth ychwanegol, pe baent yn dioddef trosedd neu'n dioddef o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r asesiad risg ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ein cynorthwyo i nodi nodweddion a ddiogelir penodol.
6.1.10	Wrth adolygu'r weithdrefn gwyno gorfforaethol, ystyried sut y gallwn symleiddio'r broses gwyno a gwella hyder y cyhoedd i gwyno. Sicrhau bod yr adolygiad yn cynnwys mecanwaith ar gyfer casglu a chofnodi data monitro cydraddoldeb	Gwasanaethau Cwsmer a Gwybodaeth Corfforaethol		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	2014-Dyddiad cwblhau diwygiedig 2015		Cafodd y Weithdrefn Cwynion Corfforaethol ei hadolygu a'i diweddarau a daeth i rym gyda phroses 2 gam symlach ym mis Ionawr 2015. Mae gwybodaeth ynglŷn â'r broses bresennol yn cael ei harddangos ar y fewnwyd ac mae tafenni ar gael sy'n esbonio'r broses gwynion mor glir ag sy'n bosibl. Mae tafenni gwybodaeth hefyd ar gael mewn derbynfeydd yn adeiladau Conwy. Caiff ffurfienni monitro cydraddoldeb eu cynnwys ar y tudalennau "Cysylltwch â ni" ar y fewnwyd ac mae trefn mewn lle i gasglu a chofnodi'r wybodaeth hon.
6.1.11	Parhau i gynnal Digwyddiadau Rhwydweithio ym maes Gwaith Ieuencid Continue gan gynnwys sefydliadau sy'n bartneriaid, y sector gwirfoddol a sefydliadau eraill i arddangos yr ystod eang o wasanaethau cymorth sydd ar gael i bobl ifanc yng Nghonwy (gwahoddir pobl ifanc i fynychu)	Gwasanaeth Datblygu Cymunedol: Gwasanaeth Ieuencid	Nod Craidd 4i - PPPI	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Ar sail barhaus		Yn y digwyddiad a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuencid Abergele ym mis Chwefror daeth nifer dda o asiantaethau a oedd yn hyrwyddo eu gwasanaethau a'r rhai a oedd mynychu i gael gwybod mwy am y gwasanaethau sydd ar gael i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Defnyddiodd y PPPI y digwyddiad i lansio'r Canllaw Cyfryngau. Keith Towler y Comisiynydd Plant a wnaeth y dasg hon. Bydd digwyddiad tebyg yn cael ei gynnal y flwyddyn nesaf.

	Gweithredu	Cyfrifoldeb	Croes Gyfeirio	Hll	Anabledd	Rhyw	Ailbennu	Rhywedd	Tueddfryd	Rhywiol	Oedran	Crefydd/Cred	Priodas/	Partneriaeth Sifil	Beichiogrwydd/	Cyfnod	Manlaeth	Cwblhau erbyn	Cynnydd Coch-heb ei wneud Ambr-yn mynd rhagddo Gwyrdd-cwblhawyd / parhaus	Gweithredu a wnaed
6.2.1	Gweithio gyda'n gilydd er mwyn sicrhau bod eiddo wedi ei addasu yn cael eu rhoi i'r rheiny sydd angen eiddo o'r fath e.e. addasiadau anabledd, gan gynnwys drwy Brosiect Rhestr Aros Gyffredin Gogledd Cymru	Strategaeth Tai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig	Un Conwy 3.1.2		✓						✓							2014		Mae'r Tim Gwella Tai yn parhau i weithredu'r camau gweithredu a nodir yn y Strategaeth Tai Pobl Hŷn. Mae'r amserlen ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn parhau i wella wrth i'r tim sicrhau eu bod yn parhau i feincnodi ac ymchwilio i arferion da. Erbyn hyn ceir swydd benodol, sef Cydlynnydd Paru Eiddo wedi'i Addasu. Mae'r tim wedi paratoi taffenni ar gyfer y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a'r Gwasanaeth Paru Eiddo. Cynhelir cymorthfeydd a diwrnodau gwymbodaeth yn rheolaidd mewn ysbysai lleol, lle mae swyddog wrth law i roi cyngor a thaffenni ar gyfer y grantiau cyfleusterau i'r anabl a'r gwasanaeth paru eiddo. Mae adolygiad o'r holl wasanaethau yng Nghonwy a ariennir gan Gefnogi Pobl yn cael ei gynnal ar hyn o bryd.
6.2.2	Cynhyrchu a gweithredu'r Strategaeth Tai Pobl Hŷn i sicrhau bod gan bobl hŷn dai priodol ac adeiladu dau gynllun tai gofal ychwanegol yn Abergele a Llandudno	Strategaeth Dai	Un Conwy 3.1.4	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓						2015		Mae'r camau gweithredu sy'n weddill o'r strategaeth tai pobl hŷn wedi eu hymgorffori ym maes gwaith y Bartneriaeth Tai Strategol. Mae dau gynllun Tai Gofal Ychwanegol wedi cael eu cyflawni'n llwyddiannus yn Abergele a Llandudno.
6.2.3	Byddwn yn adnabod ac yn rheoli llety dros dro a ddarperir ar gyfer aelwydydd digartref, darparu tai â chymorth a chefnogaeth yn ymwneud â thenantiaeth i leihau digartrefedd ymysg grwpiau diameddifyn. Pan fod hynny'n bosibl, byddwn yn ystyried anghenion grwpiau penodol o ran ardal y lleoliad, preswylwyr presennol a diogelwch personol tybiedig ac yn ceisio tarfu cyn lleied â phosib ar deuluoedd/addysgu	Strategaeth Dai	Un Conwy 3.2.2, 3.2.3	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓						2015		Mae gennym bortffolio o ystafelloedd Gwely a Brecwast ac eiddo ar Brydles Sector Preifat sy'n cael eu defnyddio i gartrefu cleientiaid ar sail dros dro. Wrth roi cleientiaid mewn un o'r ddau opsiwn, rhoddir ystyriaeth fawr i ba mor fregus yw cleientiaid a'u teuluoedd ac unrhyw rwydweithiau cymorth presennol sydd yn eu lle. Mae'r swyddog llety mewn cysylltiad cyson â'r cleientiaid mewn llety Gwely a Brecwast a'r tim prydlles sy'n rheoli'r cleientiaid mewn eiddo ar brydles i asesu cynnydd cleientiaid i mewn i gartrefi cynaliadwy. Yn ogystal, gwneir ymweliadau â'r darparwr gwely a brecwast i sicrhau bod y llety o safon dda. Mae cleientiaid mewn llety dros dro yn elwa o gefnogaeth tenantiaeth naill ai oddi wrth y Swyddogion Datrysiaidau Tai neu'r Tim Cyswllt Tenantiaeth.
6.2.4	Datblygu Strategaeth Dai Leol a fydd yn cynnwys y Strategaeth Digartrefedd a'r Strategaeth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig	Strategaeth Tai	Un Conwy 3.2.1	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓					2013		Cyflwynwyd y Strategaeth Tai Lleol drafft i'r Cabinet ym mis Ebrill 2013 cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus a bydd Strategaeth terfynol yn cael ei fabwysiadu gan yr Awdurdod ym mis Gorffennaf 2013. Mae'r strategaeth hon yn cynnwys strategaeth tai Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig ac aethom ati i ymgynghori yn benodol â grwpiau Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig drwy NWREN cyn ysgrifennu'r strategaeth oherwydd hyn. Bydd yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael ei gwblhau yn ystod 2013-2014. Mae'r Strategaeth Digartrefedd yn cael ei wneud drwy'r Adolygiad Shelter a'r cynllun gweithredu.
6.2.5	Byddwn yn rhoi cymorth i bobl sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref gynnal eu tenantiaethau lle y bo'n bosib. Byddwn yn sicrhau bod penderfyniadau cydgysylltiedig yn cael eu gwneud ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed y gallai gwahanol wasanaethau eu hystyried yn oedolion ac/neu yn blant, gan sicrhau bod y datrysiaid mwyaf priodol yn cael ei ddefnyddio ym mhob sefyllfa. Byddwn yn sicrhau bod pobl yn derbyn y budd-daliadau perthnasol	Tim y Gwasanaeth Cynghori Tai / Gwasanaethau Plant a Teuluoedd a Budd-daliadau Tai		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓							2012 ac yn barhaus		Mae'r Strategaeth Digartrefedd yn cael ei wneud drwy'r Adolygiad Shelter a'r cynllun gweithredu. Mewn perthynas â'r gwaith gyda phobl ifanc ddigartref, rydym wedi datblygu'r strategaeth llety ieuencid. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar ddatblygu mwy o opsiynau symud ymlaen ar gyfer pobl ifanc sydd ar hyn o bryd mewn llety dros dro. Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaeth stop nos a datblygu asiantaeth gosod tai cymdeithasol.

Gweithredu	Cyfrifoldeb	Croes Gyfeirio	Hil	Anabledd	Rhyw	Ailbennu Rhywedd	Tueddifyd Rhywiol	Oedran	Creffyd/Cred	Priodas/ Partneriaeth Sifil	Baichogrwydd/ Cyfnod Manolaeth	Cwblhau erbyn	Cynnydd Coch-heb ei wneud Ambr-yn mynd rhagddo Gwyrdd-cwblhawyd / parhaus	Gweithredu a wnaed
6.2.6	Adfywio Cyffordd Llandudno a Bae Colwyn, gan sicrhau ein bod yn ystyried hygrychedd corfforol, yn cwblhau Datganiadau Mynediad cynhwysfawr lle bo hynny'n briodol ac yn ymgynghori'n eang â grwpiau sy'n cynrychioli pobl anabl i sicrhau cynwysoldeb	Gwasanaeth Datblygu Cymunedol – Partneriaid Busnes a Menter	Un Conwy 5.1.6	✓	✓	✓		✓				2014		Mae'r rhaglenni adfywio'r ddwy dref yn canolbwyntio fwyfwy ar hwyluso buddsoddiad gan y sector preifat. Os oes angen caniatâd cynllunio, bydd yn ofynnol i'r ymgeiswyr gyflwyno Datganiadau Dylunio a Mynediad, a fydd yn ystyried mynediad corfforol ac yn destun ymgynghori. Gall unrhyw grŵp cymunedol lleol roi sylwadau yn ystod y broses ddylunio am unrhyw fuddsoddiad isadeiledd y sector cyhoeddus sy'n cael ei wneud fel rhan o'r rhaglenni adfywio. Gall hyn amrywio o dirlunio ardaloedd ar Ffordd Glan y Môr, Cyffordd Llandudno i ddatblygu Glan y Môr Bae Colwyn. Dylid nodi hefyd bod y prif gyllidwyr, fel Llywodraeth Cymru, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, a Chronfa Treftadaeth y Loteri yn gwneud cynnal Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb yn ofynnol, gan gynnwys ystyried mynediad corfforol ar lefel rhaglen a phrosiect. Roedd ar y rhan fwyaf o'r prosiectau adeiladu ar Ffordd Conwy angen caniatâd cynllunio, a bydd Datganiad Dylunio a Mynediad yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r cais cynllunio. Rydym wedi cynnig grantiau trydydd parti ac felly nid oeddem yn rheoli'r broses gynllunio ein hunain. Mae enghreifftiau o wella hygrychedd yn cynnwys Pae'r Cae Derw, lle'r ydym wedi gwella mynediad i mewn i'r parc a chreu gardd synhwyrdd.
6.2.7	Lle bod hynny'n briodol, a bod cyllid yn caniatáu, byddwn yn gwella mynediad i'n amgylchedd, ee, y rhwydwaith lwybrau a mannau cerdded	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri / Prifffyrdd ac Isadeiledd	Un Conwy 6.3.2, 6.3.3		✓			✓				2013		Yn 2012/13, roedd 69.4% o'n Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn hawdd i'w defnyddio (ein targed oedd 75%). Oherwydd natur ar hap o ddewis 5% o'r llwybrau i'w profi mae'n anodd rhagweld hyd hawl tramwy cyhoeddus a fydd yn hawdd i'w defnyddio. Mae ein hadnoddau yn cael eu blaenoriaethu a'u targedu at lwybrau sydd yn fwy pwysig i'r gymuned sy'n golygu y gallai llwybrau a ddefnyddir llai fod â phroblemau heb eu datrys sydd wedi eu codi yn ystod yr arolwg hwn. Mae llawer o lwybrau hefyd wedi methu eleni oherwydd y tywydd garw yn ystod y 12 mis diwethaf.
6.2.8	Byddwn yn ystyried anghenion pobl anabl (mynediad corfforol ar gyfer unigolion anabl a'u gofalwyr), pobl trawsrywiol (gan gyflwyno cyfleusterau sy'n niwtral o ran rhywedd) a rhyw (cyfleusterau newid babanod yn ystafelloedd y menywod a'r dynion) wrth ystyried cyfleusterau eraill yn ystod yr adolygiad o gyfleusterau cyhoeddus	Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol			✓	✓	✓		✓	✓		Parhaus yn amodol ar gyllid a chymeradwyaeth		Yn ystod 2012, mae chwe chyfleuster cyfleusterau cyhoeddus wedi eu huwchraddio, maent i gyd yn awr yn cynnwys ciwbiai anabl gyda chyfleusterau newid cewynnau sy'n hygyrch i bawb ac mae tri chyfleuster yn cynnwys ciwbiau i'r ddau ryw.
6.2.9	Byddwn yn sicrhau bod yr holl geisiadau cynllunio'n cynnwys datganiad mynediad wedi'i gwblhau'n llawn lle ystyrir fod hwn yn angenrheidiol, cyn bod gwaith yn cael ei gymeradwyo a chyn ei fod yn dechrau	Yr Adran Gynllunio			✓			✓				Ar unwaith ac yn barhaus		Rydym yn sicrhau cydymffurfiaid â'r holl waith i ardaloedd mynediad cyhoeddus y mae Rheoliadau Cynllunio neu Adeiladu angen 'Datganiad Mynediad' i gael ei gwblhau cyn i'r gwaith ddechrau. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau ein bod yn dal yr holl faterion mynediad allweddol i sicrhau cydymffurfiaeth a / neu i weithredu gweithdrefnau ffurfiol i 'reoli' y sefyllfa. Gyda phob adeilad newydd, mae 'Datganiadau Dylunio a Mynediad' llawn yn cael eu cwblhau, ac rydym hefyd yn ymgysylltu arbenigedd Ymgynghorwyr Mynediad ar gyfer prosiectau mawr, er enghraifft, wrth ymgymryd â datblygiadau Parc Eirias a Phorth Eirias (6.2.14).
6.2.10	Byddwn yn hyfforddi'r holl staff sy'n gyfrifol am gynllunio a dylunio'r amgylchedd adeileddig ar faterion mynediad ar gyfer pobl anabl i sicrhau bod penderfyniadau da'n cael eu gwneud ar yr adegau cynnar yn y broses cynllunio ac adeiladu ledled Conwy, gan gynnwys defnyddio Datganiadau Mynediad, i sicrhau mynediad o ansawdd a diogel i bawb	Gwasanaethau Rheoli Eiddo / Prifffyrdd ac Isadeiledd / Adran Gynllunio			✓	✓	✓		✓	✓		2013		Mae staff cymwys yn gyfredol â chyfraith a rheoliadau statud ac yn ymgynghori gydag adrannau cleient am gyngor. Mae'r Adran Gynllunio yn edrych yn benodol ar ddarparu hyfforddiant targedu ar faterion mynediad i bobl anabl i bob swyddog ar y cyd â Grŵp Mynediad Lleol Conwy gyda chymorth Cymorth Cynllunio Cymru. Mae'r holl swyddogion hefyd wedi eu hatgoffa i gwblhau hyfforddiant cydraddoldeb ar-lein er mwyn sicrhau eu bod yn deall pwysigrwydd mynd i'r afael ag anghenion mynediad.
6.2.11	Byddwn yn annog y Grŵp Mynediad Lleol i fod yn "ymgynghorai ffurfiol" trwy ei gynnwys pan fyddwn yn cyhoeddi rhestr wythnosol o geisiadau cynllunio a fydd yn cynnig y cyfle ar gyfer adolygiad manwl o geisiadau a'r cyfleuster i fwydo'n ôl i'r Adran Gynllunio	Yr Adran Gynllunio			✓			✓				Ar unwaith ac yn barhaus		Mae'r Adran Gynllunio wedi bod yn anfon rhestr wythnosol o geisiadau cynllunio at Grŵp Mynediad Lleol Conwy ers y Gwanwyn 2012. Mae cynrychiolwyr o'r Adrannau Cynllunio a Rheoli Adeiladu wedi mynychu cyfarfod Grŵp Mynediad Lleol i egluro cyfrifoldebau gwahanol pob adran ac ar ba gam yn y broses y maent yn cymryd rhan i helpu i egluro'r broses ar gyfer y Grŵp Mynediad Lleol. Bydd yr Adran Gynllunio hefyd yn anfon cynrychiolydd i fynychu cyfarfodydd Grŵp Mynediad Conwy ar sail fwy rheolaidd fel rhan o ymgysylltiad parhaus.

Gweithredu	Cyfrifoldeb	Croes Gyfeirio	Hil	Anabledd	Rhyw	Ailbennu Rhywedd	Tueddfryd Rhywiol	Oedran	Creffyd/Cred	Priodas/ Parthneriaeth Sifil	Baichogrwydd/ Cyfnod Manolaeth	Cwblhau erbyn	Cynnydd Coch-heb ei wneud Ambr-yn mynd rhagddo Gwyrdd-cwblhawyd / parhaus	Gweithredu a wnaed
6.2.12	Byddwn yn adolygu ein proses Gaffael i sicrhau pan ein bod yn rhoi gwaith ar contract allanol, bod cydraddoldeb yn rhan annatod o dendrau caffael. Cyn caffael, byddwn yn adolygu pob dogfen berthnasol, i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Mynediad Anabledd.	Tim Caffael (CBSC) ac aelodau o Rwydwaith Cydraddoldeb Gogledd Cymru		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		2013		Mae prosesau caffael a wnaed gan yr uned Caffael a Chontractau Corfforaethol bob amser yn cynnwys adran yn y dogfennau tendro sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparu gyflenwyr ddatgan eu bod, fel cyflogwr, yn cadw ac yn cynnal polisi Cyfle Cyfartal sy'n cydymffurfio â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. Gellir gofyn i gyflenwyr hefyd ddarparu tystiolaeth o bolisi a gweithdrefnau lle bo angen. Mae'r wybodaeth hon wedyn yn cael ei hasesu o ran risg gan y panel gwerthuso. Mae'n cael ei gydnabod na fydd y dull corfforaethol hwn yn gyson ar draws Conwy gyfan felly mae Caffael a Chontractau Corfforaethol wrthi'n datblygu dull safonol o ran adrannau allweddol o'r dogfennau tendro fel y gall yr Awdurdod fabwysiadu dull unfurff lle bo hynny'n berthnasol. Byddai cydymffurfiaeth o ran cydraddoldeb yn cael ei gynnwys o fewn y darn hwn o waith.
6.2.13	Byddwn yn annog pobl anabl i gyfranogi yn y broses gynllunio	Yr Adran Gynllunio		✓				✓			✓	Ar unwaith ac yn barhaus		Mae pob aelod o'r gymuned yn cael eu hannog / gwahodd i roi sylwadau ar geisiadau cynllunio. Mae cyfathrebu rheolaidd yn digwydd rhwng Grŵp Mynediad Lleol Conwy a'r Adran Gynllunio.
6.2.14	Bydd Rheolwyr Prosiectau'n cynnal Archwiliad Mynediad llawn pan eu bod yn cwmpasu'r gwaith fydd yn cael ei wneud ar bob prosiect y maent wedi'u haseinio iddo sy'n golygu gwneud newidiadau i ardaloedd cyhoeddus mewn adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngr. Bydd pob prosiect yn cael ei asesu yn unol â'r Cynllun Rheoli Asedau a byddwn yn sicrhau cydymffurfiaid â BS 8300 a Dogfen M y Rheoliadau Adeiladu a gymeradwywyd	Gwasanaethau Rheoli Eiddo		✓	✓	✓		✓	✓			Ar unwaith ac yn barhaus		Mae pob prosiect dros £5000 yn awr yn cael eu hystyried a'u cymeradwyo gan y Tim Rheoli Asedau. Mae pob prosiect yn ystyried BS 8300 a Document M (ar gyfer cyflwyniadau rheoliadau adeiladu), fel rhan o ofynion briffio prosiect a lle bydd gwaith arfaethedig yn effeithio ar y meysydd hyn. Pan na fyddwn yn cynnal archwiliad mynediad llawn, bydd hygyrchedd yn cael ei ystyried fel rhan o'r gofynion prosiect, hynny yw, cydymffurfio â Safonau Prydeinig (BS 8300) a Rheoliadau Adeiladu (Rhan M).
6.2.15	Wrth gyflawni'r camau gweithredu yn Un Conwy mewn perthynas â threfnadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg ar gyfer siaradwyr a dysgwyr, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi hefyd i'r modd y gellir cynnwys pobl nad ydynt yn siarad Gymraeg (gan gynnwys pobl Fyddar sy'n defnyddio iaith Arwyddion Prydain) yn y profiad twf diwylliant hwn	Gwasanaeth Datblygu Cymunedol	Yn cyfeirio at Un Conwy 7	✓								Ar unwaith ac yn barhaus		Yn ddiweddar lansiodd Twristiaeth a Chymunedau wefan dwristiaeth swyddogol ar gyfer Cyrchfan Conwy - 'Dewch i Landudno – Dewch i Weld Gogledd Cymru ar ei Gorau'. Mae ganddo opsiwn i ddewis o bum iaith e.e. Cymraeg, Saesneg, Ffrangeg, Sbaeneg ac Almaeneg. Hefyd mae'r ciosgau gwybodaeth ddigidol wedi cael eu gosod mewn amryw o leoliadau yn Sir Conwy. Mae ein Llyfrgelloedd yn cyflogi staff sy'n siarad ieithoedd eraill yn ogystal â Chymraeg a Saesneg. Mae ganddynt 2 aelod o staff sydd wedi cael hyfforddiant BSL, un yn Llandudno ac un ym Mae Colwyn. Maent yn darparu cyhoeddiadau print bras yn ogystal ag adnoddau llais i gwsmeriaid eu benthyg ac yn cynnig cyhoeddiadau Braille ar gais. Mae Conwy yn cefnogi'r ymgyrch "Mwy Na Geiriau" i ddefnyddio'r Gymraeg yn frwd i ddefnyddwyr y gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg.
6.2.16	Byddwn yn rhoi cymorth i bobl agored i niwed er mwyn sicrhau mynediad teg at asesiad a gwasanaethau a ddarperir o fewn fframwaith y meini prawf cymhwyster ac yn seiliedig ar angen	Gwasanaethau Cymdeithasol	Cynllun Gwasanaeth Comisiynu Gwasanaethau Oedolion	✓	✓	✓	✓	✓	✓			Ar unwaith ac yn barhaus		Mae pob defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei asesu ar ei anghenion unigol yn unol â fframwaith y meini prawf cymhwys, waeth beth yw ei nodwedd a ddiogelir. Ar ôl hynny mae'r gwasanaeth priodol yn cael ei gomisiynu ar eu rhan.
6.2.17	Byddwn yn gwerthuso cyfranogiad yn Nod yr Enfys a ddatblygwyd gan Ganolfan Rhagoriaeth LGBT Cymru a Safon Stonewall i fabwysiadu dull strwythuredig o sicrhau bod anghenion Pobl Lesbïaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol yn cael eu diwallu mewn cyflogaeth ac wrth ddarparu gwasanaethau, a chyflwyno argymhellion i'r Uwch Dim Rheoli	Tim Cydraddoldeb CBSC Grŵp LGBT				✓	✓					Ionawr 2013		Adolygodd y Tim Cydraddoldeb, gyda grŵp o staff Lesbïaidd, Hoyw a Deurywiol, y Marc Enfys a Safon Stonewall er mwyn ystyried pa ddull i'w fabwysiadu i ddiwallu anghenion staff LGBT yn y ffordd orau yn Nghonwy. Ers hynny, mae'r Marc Enfys wedi rhoi'r gorau i weithredu. Mae Safon Stonewall yn gofyn am fuddsoddiad ariannol blynyddol eithaf sylweddol ac nid yw'n ddichonadwy yn yr hinsawdd economaidd presennol felly ni fyddwn yn mynd ymlaen â'r aelodaeth am nawr. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn ein hatal rhag gweithio ar y mesurau arfer da y mae Stonewall wedi'u mabwysiadu.
6.2.18	Byddwn yn datblygu Polisi ffurfiol ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb (ar y cyd â'r holl bartneriaid yn y sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru wrth ddatblygu offeryn safonol) a bydd hwnnw'n cynnwys: sut y mae'r gwaith hwn wedi'i integreiddio yn y broses datblygu polisi a phenderfyniadau o'r cychwyn; gan ddiffinio meini prawf o ran effaith "sylweddol"; proses cymeradwyo a mecanwaith cyhoeddi	Partneriaeth Rhwydwaith Cydraddoldeb Gogledd Cymru a Tim Cydraddoldeb CBSC	Un Conwy 8.2.6	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Rhagfyr 2012		Mae Polisi Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gymeradwyo'n llawn, ei fabwysiadu a'i gyhoeddi, gyda gweithdy hyfforddi Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i ddiwygio yn unol â hynny. Mae hwn ar gael ar safle Mewnwyd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sydd hefyd wedi ei ddatblygu a'i wella.

	Gweithredu	Cyfrifoldeb	Croes Gyfeirio	Hil	Anabledd	Rhyw	Ailbennu Rhywedd	Tueddfryd Rhywiol	Oedran	Crefydd/Cred	Priodas/ Parthriaeth Sifil	Beichiogrwydd/ Cyfnod Manolaeth	Cwblhau erbyn	Cynnydd	Gweithredu a wnaed
														Coch-heb ei wneud Ambr-yn mynd rhagddo Gwyrdd-cwblhawyd / parhaus	
6.2.19	Byddwn yn archwilio argaeledd cyllid rheolaidd i'n galluogi i gynnig cyfleusterau laith Arwyddion Prydain a Sain ar bob cynhyrchiad wythnos o hyd yn Venue Cymru	Partneriaeth Rhwydwaith Cydraddoldeb Gogledd Cymru a Thim Cydraddoldeb CBCSVenue		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Parhaus		Yn y cam contractio caiff cyfraniad gan y cwmni sy'n ymweld tuag at Berfformiadau laith Arwyddion Prydain, Sain Ddisgrifiad a Pherfformiadau â Chapsiynau ei drafod.
6.2.20	Bydd Teithwyr Sipsi'n cael mynediad teg at wasanaethau ar gais	Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg, Gwasanaeth Datblygu Cymunedol, Casglu Sbwriel		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		Ar unwaith ac yn barhaus		Mewn Addysg, mae presenoldeb a chyrraedd Sipsiwn-Teithwyr yn cael eu monitro'n flynyddol, ac mae gan y Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg Swyddog Lies Addysg dynodedig sy'n ymgymryd â dyletswyddau penodol o ran cefnogi plant Sipsiwn-Teithwyr a'u teuluoedd, a gweithredu fel cyswllt rhwng yr ysgol a'r cartref. O safbwynt y Gwasanaethau Cymdeithasol, nid ydym wedi cael unrhyw achosion diweddar lle rydym wedi cael cais i gefnogi teulu Sipsiwn-Teithwyr, er y byddem bob amser yn cefnogi hawliau'r unigolyn wrth gael mynediad at ein gwasanaethau.
6.2.21	Byddwn yn penodi Swyddog Prosiect i gyfuno cofrestru dai gyffredin ar y cyd â Phrifysgol Glynŵr rhwng Cyngor Conwy, Cartrefi, Cymdeithas Tai Gogledd Cymru, Clwyd Alyn a Wales and West Penarth, a fydd yn symleiddio'r broses i gwsmeriaid gan na fydd ond rhaid iddynt gofrestru unwaith	Strategaeth Dai		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓			Rhagfyr 2015		Cwblhawyd y cam gweithredu hwn pan ddaeth SARTH yn weithredol o 1 Ebrill 2015.
6.2.22	Byddwn yn cyfrannu at Gynllun Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru (i wella hygyrchedd at gyflogaeth, addysg, iechyd a gwasanaethau i bob cymuned yng ngogledd Cymru, darparu mathau cynaliadwy o gludiant er mwyn gwella effeithlonrwydd y rhwydwaith cludiant)	Gwasanaeth Datblygu Cymunedol - Polisi Cludiant Integredig a'r Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau Taith	Un Conwy 6.4.2 a Chynllun Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓			2015		Penderfynodd Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru yn 2014 i baratoi Cynllun Cludiant Lleol ar y Cyd (CCLI) ar gyfer eu hardal. Mae paratoi'r cynllun wedi cael ei oruchwylio gan Fwrdd Taith. Taith oedd Consortia Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru. Er nad yw bellach yn gyfrifol am dderbyn a rheoli cyllid cludiant rhanbarthol oddi wrth Lywodraeth Cymru, mae Taith yn parhau i fod yn gydbwyllgor cyfansoddiadol llawn o'r Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am gludiant. Canlyniadau allweddol y CCLI yw: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cysylltiadau i Gyrcffannau/ Marchnadoedd Allweddol</li> <li>• Mynediad at waith:</li> <li>• Mynediad at Wasanaethau:</li> <li>• Cynnydd Iefelau Cerdded a Beicio:</li> <li>• Buddion a Lleihau Effeithiau ar yr Amgylchedd:</li> </ul> Datblygwyd cyfres o ymyriadau lefel uwch, sydd gyda'i gilydd yn ffurfio'r ymagwedd at gyrraedd nodau CTLI, ac maent fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwelliannau i wydnwch y rhwydwaith cludiant</li> <li>• Gwelliannau cynhwysedd a diogelwch / cyfyng-bwyntiau</li> <li>• Integreiddio â gwasanaethau cludiant cyhoeddus strategol</li> <li>• Gwell cysylltiadau â Chyflogaeth</li> <li>• Mynediad at Wasanaethau</li> <li>• Annog cludiant cynaliadwy</li> </ul> Mae pob un o'r Awdurdodau Lleol wedi darparu nifer o gynlluniau arfaethedig sy'n bodloni un neu fwy o'r ymyriadau lefel uwch uchod, i'w cynnwys yn y Cynllun Cludiant Lleol. Cafodd y CCLI ei gwblhau ym mis Ionawr 2015.
6.2.23	Cynnal adolygiad o Gludiant Cymunedol (y tu allan i gylch gwaith gweithredwyr masnachol) ar draws Gwasanaethau Conwy a ledled gogledd Cymru a gwneud argymhellion ar gyfer y ffordd ymlaen	Gwasanaeth Datblygu Cymunedol - Polisi Cludiant Integredig a'r Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau Taith		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓			2013 Dyddiad cwblhau diwygiedig 2015		Ar ôl i Gludiant Cymunedol Conwy gael ei ddi-ddymu, mae trafodaethau rhwng is-adran Cludiant, Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Datblygu Cymunedol a chynrychiolaeth gan y Gymdeithas Cludiant Cymunedol, wedi arwain at gynnig Strategaeth Cludiant Cymunedol newydd i Gonwy, a bydd yn gynllun 5 mlynedd.
6.2.24	Byddwn yn datblygu fframwaith prisio fel bod gan blant a phobl ifanc gludiant fforddiadwy.	Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc	Un Conwy 6.4.3	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓			2013-Dyddiad cwblhau diwygiedig 2015		Mae Grŵp Nod Craidd 4L y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc wedi canolbwyntio ar gludiant fforddiadwy i blant a phobl ifanc. Mae cynllun teithio rhatach wedi'i sefydlu gan Lywodraeth Cymru i rai 16 – 18 oed sef "Fy Ngherdyn Teithio" sy'n cynnig gostyngiad o 1/3 ar siwrneiau bws.